

Dysgu Cymraeg

Cymraeg yn y Cartref

De Cymru
(South Wales)



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh



Dysgu
Learn

Cymraeg yn y cartref

Croeso! Rhagarweiniad ...

Croeso i Cymraeg yn y cartref.

The aim of Welsh in the Home is to provide you with additional phrases and vocabulary so that you can use more Welsh at home and support your child or children through bilingual education.

As well as useful Welsh phrases and vocabulary, you will learn a little about contemporary Welsh culture and traditions you can enjoy with your children, and pick up tips to help you develop your Welsh language skills in the home.

These children will help you understand which age groups are suited to activities and services mentioned in this course.



Helô, sut dych chi?

Geirfa

bisged siocled – *chocolate biscuit*

cân – *song*

cariad – *love*

plentyn (plant) – *child (children)*

teulu – *family*

adio – *to add*

hapus – *happy*

swnllyd – *noisy*

tawel – *quiet*

trist – *sad*

amser gwely – *bed time*

dim – *zero, nothing, no*

i ti – *for you*

syniad da! – *good idea!*

Syniad da!



Singing Welsh songs is a great way for you and your child to learn new words and have fun! You'll find lots of great videos of Welsh nursery rhymes online, such as this playlist prepared by Newport City Council featuring songs that your child will learn at their Cylch Meithrin or school: <https://www.youtube.com/user/newportwebteam/playlists> Many music streaming services have Welsh playlists for children and your local Welsh bookshop can help you find CDs and DVDs to play at home.

Cân: Mr Hapus

**In the Mynediad course, we use 'dw i', but you will see the more formal 'ydw i' in your child's reading books and in songs such as Mr Hapus.*

Mr Hapus ydw i, ydw i
Mr Hapus ydw i, ydw i
Mr Hapus ydw i
Mr Hapus ydw i
Mr Hapus ydw i, ydw i

Mr Trist ydw i, ydw i
Mr Trist ydw i, ydw i
Mr Trist ydw i
Mr Trist ydw i
Mr Trist ydw i, ydw i

Mr Swnllyd ydw i, ydw i
Mr Swnllyd ydw i, ydw i
Mr Swnllyd ydw i
Mr Swnllyd ydw i
Mr Swnllyd ydw i, ydw i

Mr Tawel ydw i, ydw i
Mr Tawel ydw i, ydw i
Mr Tawel ydw i
Mr Tawel ydw i
Mr Tawel ydw i, ydw i



Ti a Chi

With your child, you should use the singular and informal Ti. Some children use chi with a parent as a sign of respect, but it's more common now for children to call a parent ti. Chi is used when talking to more than one person, so you should use it if you have more than one child, when speaking to both or all of them.

Sgwrs 1 – Amser gwely

- A: Dim i-pad nawr. Amser gwely i ti!
- B: O! Dw i'n gwylio Sam Tân!
- A: Na, amser gwely.
- B: lawn.
- A: Nos da cariad.
- B: Nos da.

Sgwrs 2

- A: Sut dych chi, blant?
- B: lawn. Sut wyt ti, mam/dad?
- A: Dw i wedi blino.
- B: Bisged siocled?
- A: Plîs - diolch!

Rhifau 1-10

Adio to add

Work with a partner to fill in the gaps below with the correct answer yn Gymraeg. Then, read the sums out loud, with one partner reading the first part and the other providing the answer, for example: Partner 1: Un adio dau Partner 2: Tri You could also do this exercise with your child.

$1 + 2 = \underline{\text{tri}}$ $2+3 = \underline{\hspace{2cm}}$ $2+1+1 = \underline{\hspace{2cm}}$ $3+2+1= \underline{\hspace{2cm}}$ $5+4 = \underline{\hspace{2cm}}$

$2+3+3 = \underline{\hspace{2cm}}$ $1+1= \underline{\hspace{2cm}}$ $5+4+1 = \underline{\hspace{2cm}}$ $3+4 = \underline{\hspace{2cm}}$

1 2 3 4 5

Y Teulu

This is the Davies family. Choose the correct words to fill in the gaps in their speech bubbles.

da

dw i

Bow wow

Alys

dych

Helô

Pwy

Lisa
(Mam)



Alun
(Dad)



Helô! Lisa _____.
Sut ____ chi?

Prynhawn _____.
Alun dw i. _____.
dych chi?

Alys



Gruff



Pero



Helô! _____
dw i.

_____!

Wyt ti'n hoffi coffi?

Geirfa

brechdan(au) – sandwich(es)

gitâr (gitarau) – guitar(s)

gwers(i) – lesson(s)

stori (storïau) – story (stories)

llyfr(au) – book

lliwio – to colour

dim byd – nothing

trip ysgol – school trip

yn yr ysgol – in school

yn y tŷ – in the house / at home

ymarfer corff – P.E.

Syniad da!

'Dyn ni'n hoffi...



Cyw is the Welsh language Service for children on S4C, which is on from 06:00-12:00 dydd Llun – dydd Gwener, 06:00 – 08:00 dydd Sadwrn a 06:00 – 09:00 dydd Sul. You can also catch up with Cyw at any time on Clic, i-player or on the Cyw website www.cyw.cymru

Cyw's colourful animal characters are very appealing to young children. As well as being fun and entertaining, Cyw programmes and songs will help you and your child develop literacy and numeracy skills in Welsh.

Cân: Dyddiau'r Wythnos


Un, dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith,
Cyfrwch y diwrnodau gyda ni! Count the days with us!



You will find more Cyw songs (and their full lyrics) on www.cyw.cymru/en/songs and traditional Welsh songs on <https://cyw.cymru/en/caru-canu/>

This is Aled's school timetable. What does he need every day?
Match the pictures to the correct activities.

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
llyfr darllen	ymarfer corff	Trip ysgol! brechdanau arian	ymarfer corff	gwers gitâr



Ymarfer

Take it in turns with your partner to read the questions and responses.
Then, replace the underlined words with other nouns or verb-nouns that you know in Welsh.

Wyt ti'n hoffi Sam Tân?

Nac ydw, ond dw i'n hoffi Sali Mali.

Wyt ti'n hoffi bisgedi?

Nac ydw, ond dw i'n hoffi cacennau.

Wyt ti'n hoffi darllen?

Nac ydw, ond dw i'n hoffi lliwio.

Wyt ti'n hoffi canu?

Nac ydw, ond dw i'n hoffi chwarae.

Sgwrs 1

- A: Beth wyt ti'n hoffi yn yr ysgol?
B: Dim byd.
A: Dim byd? Wyt ti'n hoffi darllen?
B: Nac ydw.
A: Wyt ti'n hoffi lliwio?
- B: Nac ydw.
A: Wyt ti'n hoffi canu?
B: Nac ydw. Ofnadwy!
A: Wyt ti'n hoffi chwarae?
B: Ydw, wrth gwrs! Bendigedig!
Dw i'n hoffi amser chwarae!

Sgwrs 2

- A: Ble dych chi'n mynd, blant?
B + C: 'Dyn ni'n mynd i chwarae.
A: Na, amser te. Sbageti heno.
B: Dw i ddim yn lico sbageti.
C: Dw i ddim yn lico sbageti chwaith.

- A: Dych chi'n bwyta sbageti yn yr ysgol!
B: Dw i'n lico sbageti yn yr ysgol.
C: Dw i ddim yn lico sbageti yn y tŷ.
Ych a fi!
A: Hmff.



Llenwch y bylchau

Fill in the gaps with the correct words from the list below.

darllen siopa dw ddim canu hoffi

Helo, Alys _____. i. Dw i'n _____ chwarae, _____ a

_____ llyfrau. Dw i _____ yn hoffi _____

bwyd gyda Mam.

Cyfieithwch Translate

I don't like reading.

.....

Where do you buy books?

.....

I like playing football.

.....

When do you watch Cyw?

.....

Dych chi eisiau paned?

Geirfa

enfys(au) – *rainbow(s)*

mathemateg – *mathematics*

siop Gymraeg – *Welsh shop*

bloc(iau) – *block(s)*

cwpan(au) – *cup(s)*

tegan(au) – *toy(s)*

hardd – *beautiful*

fan hyn – *here*

gyda – *with*

wedi gorffen – *finished; all gone*

Syniad da!



'Dyn ni'n hoffi...

Apps are a great way to keep your children entertained when you're busy or on the go, and many have educational benefits too. In recent years, Welsh apps have been developed for children of all ages, such as Tric a Chlic, Magi Ann, Mistar Urdd and Nofel Graffeg, as well various Cyw and Stwnsh apps.

Why not download a Welsh app today? The Welsh Government's Hwb website (hwb.gov.wales) would be a good place to search.

Cân: Lliwiau'r enfys


Coch a melyn a pinc a glas
Porffor ac oren a gwyrdd,
Dyma liwiau'r enfys,
Lliwiau'r enfys,
Lliwiau'r enfys hardd.


*These are the colours
of the rainbow,
colours of the
rainbow, colours of
the beautiful rainbow.*



With your child, use the colour code below to colour in these teganau (toys). Then label each tegan yn Gymraeg.


1. melyn 2. glas 3. gwyrdd 4. coch 5. oren






1





3



Sgwrs 1

- A: Dw i eisiau chwarae.
 B: Wyt ti eisiau chwarae gyda blociau?
 A: Nac ydw, dw i eisiau chwarae gyda tedi melyn.
 B: Dyma ti, tedi melyn.

- A: Diolch. Mae tedi eisiau diod.
 B: Dyma ti, dŵr i tedi.
 A: Na, llaeth plîs. Mae tedi'n hoffi llaeth.
 B: Iawn, llaeth i tedi. Dyma ti.
 A: Diolch. Da iawn tedi – wedi gorffen!

If your child goes to a Cylch Meithrin or a Welsh-medium nursery, you may have heard her/him using the phrase ‘wedi gorffen’, which means ‘finished’ or ‘all gone!’. In south Wales, other words are also used in this context, such as ‘wedi bennu’ and ‘wedi cwpla’.

Read this sgwrs between Lewys and his father, and fill in the gaps with the correct words from the list.

*ti blino
cartref
ofnadwy*



*i diod
Mathemateg
eisiau*

Lewys: Dw i ddim eisiau gwneud y gwaith cartref _____.

Dad: Pam?

Lewys: Dw i wedi _____ a dw i eisiau diod.

Dad: Dyma ti. _____.

Lewys: Diolch. Dw i _____ bisged hefyd. A dw i eisiau banana.

Dad: lawn. Dyma _____.

Lewys: A dw _____ eisiau...

Dad: Na, dim byd arall. Gwaith _____ plis.

Lewys: O Dad, rwyt ti'n _____ !

Sgwrs 2 Y Siop Gymraeg

Sgwrs 2 happens in a Siop Gymraeg (Welsh shop). Why not visit a Siop Gymraeg? You can buy Welsh books, DVDs and cards, and staff will be happy to help you practise your Cymraeg.

Read this sgwrs with your partner, taking turns to read both parts.

Then, replace the underlined words with some of the options below.

A: Bore da, sut dych chi?

B: Dw i eisiau llyfr Sali Mali hefyd, plîs.

B: Da iawn, diolch. A chi?

Llyfr oren Sali Mali.

A: Da iawn, diolch. Dych chi eisiau help?

A: Dyma chi. Llyfr oren Sali Mali.

B: Ydw plîs. Dw i eisiau DVD Sali Mali.

Rhywbeth arall?

A: Dyma chi. Fan hyn.

B: Dim diolch. Diolch yn fawr!

wedi blino heddiw

bendigedig

DVD Sam Tân

Pyjamas porffor Dewin a Doti

DVD Deian a Loli

Ilyfr Dona Direidi

Ilyfr pinc Dona Direidi

iawn

CD Cyw

Ilyfr Dysgu Cymraeg

Ilyfr melyn Dysgu Cymraeg

Pyjamas Dewin a Doti

Mynd a dod

Geirfa

gofalwraig – female carer/caretaker

cylch(oedd) – circle(s), group(s)

chwarae meddal – soft play

deinosor(iaid) – dinosaur(s)

gofalwr (gofalwyr) – male carer/caretaker

pwll peli (pyllau peli) – ball pool(s)

hanner tymor – half term

yma – here

Syniad da!

‘Dyn ni’n hoffi...

Mudiad Meithrin is the main provider of Welsh-medium early years care and education in the voluntary sector. If you have young children, they might be attending a local Cylch Meithrin or a Cylch Ti a Fi run by Mudiad Meithrin. As well as supporting your child's personal, social and emotional development, these Cylchoedd (circles or groups) will give your child a head start in Welsh and prepare them for Welsh-medium primary education. Mudiad Meithrin also produce exciting and innovative educational resources. Visit www.meithrin.cymru for more information.





Cân: Un bys, dau fys

This is one of the first songs that young children learn in their Cylch Meithrin or Nursery.

Un bys, dau fys, tri bys yn dawnsio,
pedwar bys, pum bys, chwe bys yn dawnsio,
saith bys, wyth bys, naw bys yn dawnsio,
deg bys yn dawnsio'n llon.

*One finger, two fingers, three fingers dancing,
four fingers, five fingers, six fingers dancing,
seven fingers, eight fingers, nine fingers dancing
ten fingers dancing happily.*

The video below of children at a Cylch Meithrin was produced by Newport City Council.



<https://www.youtube.com/watch?v=d-AUurrXDdQ>

Sgwrs 1 - Canolfan Chwarae Meddal Caerffili

Sam: Helô, sut dych chi?

Ceri: Da iawn diolch, a chi?

Sam: lawn, ond wedi blino! Sam dw i,
a dyma Gwilym.

Ceri: Ceri dw i, a dyma Mared. O ble
dych chi'n dod?

Sam: 'Dyn ni'n dod o Bontypridd, dim
Caerffili, ond 'dyn ni'n hoffi dod
yma.

Ceri: 'Dyn ni'n hoffi dod yma hefyd.

Mae Mared yn hoffi'r pwll peli a
dw i'n hoffi'r coffi!

Sam: Dw i'n mynd i brynu coffi nawr.
Beth dych chi eisiau?

Ceri: Dych chi'n siŵr ?

Sam: Ydw, wrth gwrs.

Ceri: Americano mawr, plîs.

Sam: Dim problem.

Ceri: Diolch!

Sgwrs 2

Mam/Dad: Ble rwyt ti'n mynd?
Plentyn: Dw i'n mynd i'r gwaith.
Mam/Dad: O? Ble rwyt ti'n gweithio?
Plentyn: Dw i'n gweithio yn yr amgueddfa.
Mam/Dad: Beth wyt ti'n wneud yn yr amgueddfa?

Plentyn: Dw i'n chwarae gyda'r deinosor.
Mam/Dad: Ble mae'r amgueddfa?
Plentyn: Yma.
Mam/Dad: Dw i eisiau mynd i'r amgueddfa gyda ti.
Plentyn: lawn. Pum punt, plîs!

Beth dych chi'n mynd i wneud dros y penwythnos?

Cofiwch, use dw i if you're writing about yourself, and 'dyn ni if you're writing about you and your family.

Nos Wener:

.....

Dydd Sadwrn:

.....

Dydd Sul:

.....

Beth wnest ti ddoe?

Geirfa

pysen (pys) – pea(s)

taten (tatws) – potato(es)

bwydo – to feed

gwisgo – to get dressed

newid – to change

peintio – to paint

ysgrifennu – to write

yn anffodus – unfortunately

selsigen (selsig) – sausage(s)

tŷ bach twt – playhouse, Wendy house


Syniad da!



'Dyn ni'n hoffi... Ffrindiau'r Wyddor

Ffrindiau'r Wyddor (*Friends of the Alphabet*) is a colourful and interactive resource on the Welsh Government's Hwb website (www.hwb.gov.wales) which introduces the letters of the Welsh alphabet. Each letter has its own character and a story to read or listen to, as well as a series of animations, a vocabulary wall which can be used to listen to different words and a simple song.





Cân: Ben Broga

(o Ffrindiau'r Wyddor)
 Ben Broga, Ben Broga,
 Yn nofio, yn nofio
 Bing-bong, bing-bong
 Sbinc-sbonc, i mewn i'r dŵr
Boing-boing into the water.

Sgwrs 1

Rhiant: Beth wnest ti yn yr ysgol heddiw?

Plentyn: Yn y bore, darllenais i lyfr ac ysgrifennais i stori. Wedyn, chwaraeais i yn y tŷ bach twt.

Rhiant: Beth wnest ti amser cinio?

Plentyn: Bwytais i datws, pys a selsig. Wedyn, chwaraeais i gyda Mari a Dewi.

Rhiant: Beth wnest ti ar ôl cinio?

Plentyn: Mathemateg. Wedyn peintiais i.

Rhiant: Peintio beth?

Plentyn: Car coch.

Rhiant: Da iawn, cariad!

Dyddiadur Mali



**Helo, Mali dw i.
Mam Elin a Jac dw i.**

Look at these selfies of Mali and write what she did every day.

The first one has been done for you

Dydd Llun



Dydd Mawrth



Bwytais
i gacen.

Dydd Mercher



Dydd Iau



Dydd Gwener



Sgwrs 2

- A: Dw i eisiau bwyd!
- B: Sori, dim bwyd eto.
- A: O? Beth wnest ti heddiw, 'te?
- B: Gwisgais i. Gwisgais i'r babi.
- A: Wedyn?
- B: Bwydais i'r babi. Newidaias i'r babi.
- A: O.
- B: Wedyn, newidaias i'r babi eto!
- A: Beth wedyn?
- B: Bwydais i'r babi. Cerddais i i'r parc gyda'r babi. Canais i i'r babi.
- A: Beth wedyn?
- B: Newidaias i'r babi ETO!
O, dw i wedi blino'n lân.
- A: OK cariad. Dw i'n coginio heno.



Y Treiglad Meddal

*Fill in the gaps in the sentences below using the options in the box.
Remember to mutate the word that follows the verb.*

Yfais i _____ yn y caffi gyda fy ffrind.

Bwytais i _____ a salad gyda'r pysgodyn.

Darllenais i _____ ddoe.

Bwytais i _____ i frecwast.

Gwisgais i _____ newydd i'r parti.

Golchais i _____.

coff ⁱ
banana
papur newydd
grawnwin
dillad
tatws

Sut mae'r tywydd?

Geirfa

creision – crisps

disgo(s) – disco(s)

oed – age, of age

parti (partition) – party (parties)

pen-blwydd(i) – birthday(s)

rhiant (rhieni) – parent(s)

gwrando – to listen

gofyn – to ask

bob amser – always, all the time


(yn) wir – truly, really

Syniad da!



'Dyn ni'n hoffi... darllen

As any early years practitioner will tell you, reading with your child is very important to develop language and listening skills, and it's never too early to start. Even babies respond to picture books and love hearing their parents' voices. You can help develop your child's Welsh language skills by reading Welsh or bilingual books together. Your local **siop Gymraeg** can help you choose suitable books. Here are a few other things to remember:



When reading to a child, it's important to point at the words to show that the letters mean something, and aren't just squiggles! Eventually, your child will start to recognise letters.

Books that rhyme are very appealing to children and help them remember new words and phrases.

If you're not sure where to start with Welsh books, why not try a Welsh version of a familiar English book such as The Gruffalo? (Y Gryffalo, www.drefwen.com).

Cân: Bwrw glaw yn sobor iawn



Your child will probably learn this popular Welsh nursery rhyme about the weather in Cylch or ysgol. Why not watch this version of the song by Caru Canu, the Cyw animation series?



<https://www.youtube.com/watch?v=kvuur1Hm9HE>

Bwrw glaw yn sobor iawn	<i>It's raining cats and dogs</i>
Wel dyna b'nawn anghynnes,	<i>Well what a miserable afternoon,</i>
'Mochel dan yr ambarél	<i>Sheltering under the umbrella</i>
A cherdded fel brenhines.	<i>And walking like a queen.</i>

Symiau

Write the answers yn Gymraeg, in words.

Un deg pedwar adio dau = _____

Wyth deg naw adio chwech = _____

Dau ddeg tri adio pump = _____

Saith deg adio naw = _____

Pum deg wyth adio pedwar = _____

Chwe deg tri adio chwech = _____

Naw deg pump adio pump = _____

Sgwrs 1: Parti pen-blwydd

Jac: Helo Sam, sut wyt ti?

Sam: Dw i'n brysur! Mae parti pen-blwydd Lili dydd Sadwrn.

Jac: Ble mae e?

Sam: Yn Neuadd y Dref, gyda disco Bob y Clown.

Jac: Pryd mae e?

Sam: Mae e'n dechrau am un o'r gloch.

Jac: Pryd mae e'n gorffen?

Sam: Tri o'r gloch.

Jac: Wyt ti'n gwneud bwyd?

Sam: Ydw. Brechdanau, creision, selsig bach.


Jac: Wyt ti'n gwneud cacen?

Sam: Nac ydw, wir! Dw i ddim yn hoffi gwneud cacennau. Mae Mam yn gwneud cacen. Mae hi'n gallu coginio'n dda.

Jac: Da iawn. Wel, pob lwc!

Sam: Diolch!

After reading the dialogue with your partner,
fill in the blanks in Lili's party invitation.



Sgwrs 2 - noson rieni



Athrawes: Noswaith dda, sut
dych chi?

Mam/Dad: Da iawn diolch, a chi?

Athrawes: Iawn diolch, ond dw i wedi
blino a dweud y gwir.
Mae hi'n brysur yma!

Mam/Dad: Ydy. Wel, sut mae Lili yn
yr ysgol?

Athrawes: Da iawn. Mae hi'n
gweithio'n dda ac mae hi'n
gwrando bob amser. Mae
hi'n gallu darllen yn dda.

Mam/Dad: Dw i'n darllen gyda hi bob
nos. 'Dyn ni'n hoffi darllen.

Athrawes: Da iawn chi.

Mam/Dad: Beth am ysgrifennu?

Athrawes: Mae hi'n hoffi ysgrifennu
ac mae hi'n gwneud
Mathemateg yn dda hefyd.

Mam/Dad: Da iawn.

Athrawes: Dych chi eisiau gofyn
cwestiwn arall?

Mam/Dad: Nac ydw. Mae Lili yn
hapus yn yr ysgol, felly
dw i'n hapus.

Athrawes: Diolch.

Mam/Dad: Diolch i chi.

Ydy hi'n gweithio?

Geirfa

cegin – *kitchen*

lolfa – *lounge, living room*

ystafell(oedd) – *room(s)*

ystafell fwyta – *dining room*

ystafell wely – *bedroom*

ystafell ymolchi – *bathroom*

ffeindio – *to find*

cloc larwm – *alarm clock*

tŷ bach – *toilet*

hwyr – *late*

tost – *ill*

druan bach – *poor love*

Ian llofft – *upstairs*

paid â phoeni – *don't worry*

siorts rygbi – *rugby shorts*

Syniad da!



'Dyn ni'n hoffi... Radio Cymru

BBC Radio Cymru is *BBC Cymru Wales's Welsh-language national radio network*. You can listen to Radio Cymru from 5:30am to midnight every day on FM, DAB, digital TV and online. Its sister station – Radio Cymru 2 – broadcasts light entertainment programmes every morning and plays a mixture of Welsh and English-language music. Even if you only speak a little Welsh, hearing the Welsh language and listening to Welsh music will help develop your Welsh language skills. You'll also learn about Welsh culture, and who knows, you might discover a new favourite band or artist! Why not ask your tutor to recommend some programmes for children and families?

BBC
radio
cymru

BBC
radio
cymru2



Cân: Pobl sy'n helpu (Cyw)

Mae llawer o bobl yn ein helpu ni
Ar y stryd neu yn y tŷ
Mae llawer o bobl yn ein helpu ni
Ond pwy sydd yn ein helpu?
A wyddoch chi?

People who help us

*Many people help us
On the street or in the house
Many people help us
But who helps us?
Do you know*

To listen to the song, go to: <https://www.youtube.com/watch?v=tHRMvg8fcYw>

Pobl sy'n helpu eich plentyn

athro
athrawes
mam-gu
tad-cu
nyrs
Meddyg Teulu

People who help your child

*male teacher
female teacher
grandmother
grandfather
nurse
GP*

Sgwrs 1 – Yn y dosbarth

Athro: Bore da! Sut dych chi?

Plant: Da iawn, diolch.

Athro: Nawr, ydy pawb yma? Sam...?
Sam...? Ydy e yma?

Plant: Nac ydy. Dyw e ddim yn dda.
Mae e'n dost.

Athro: O druan bach. Nesaf... Lisa?

Lisa: Yma!

Athro: Zak?

Zak: Yma!

Athro: Mali...? Mali...?


Mali: Dw i yma! Dyma fil! Sori, dw i'n hwyr. Cysgais i'n hwyr. Dw i eisiau cloc larwm newydd!

Athro: Mae'n iawn. Idris?

Plant: Dyw e ddim yma chwaith.
Mae e'n dost hefyd.

Athro: Dim Idris! Dim Sam! O diar!

Ystafelloedd y ty



Llawr gwaelod



Lan llofft

Beth yw'r ystafelloedd yma? Write the correct names for each room:

ystafell wely cegin tŷ bach lolfa ystafell fwyta ystafell ymolchi

Ble mae Tedi?

You decide ble mae Tedi. Your partner has to ask questions to find out in which room he is. Atebwch **Ydy** neu **Nac ydy**. Then change roles.

Ydy e yn y gegin?	Ydy e yn yr ystafell wely?	Ydy e yn y tŷ bach?
Ydy e yn y lolfa?	Ydy e yn yr ystafell fwyta?	Ydy e yn yr ystafell ymolchi?

Sgwrs 2

Plentyn: Ble mae'r siorts rygbi?

Rhiant: Dw i ddim yn gwybod.
Ydyn nhw lan llofft?

Plentyn: Nac ydyn.

Rhiant: Ydyn nhw yn y gegin?

Plentyn: Nac ydyn. O na! Ble maen nhw? Dw i'n chwarae rygbi yn yr ysgol fory!

Rhiant: Paid â phoeni! Maen nhw yn y tŷ. 'Dyn ni'n gallu ffeindio'r siorts. Beth am edrych yn yr ystafell fwyta?

Plentyn: 'Dyn nhw ddim yn yr ystafell fwyta.

Rhiant: Wyt ti'n siŵr?

Plentyn: Ydw. 'Dyn nhw ddim yn y tŷ bach chwaith.

Rhiant: Beth am edrych yn y bag ysgol?

Plentyn: lawn. O! Dyna nhw! Siorts rygbi.

Rhiant: Da iawn!



Adolygu ac ymestyn

Geirfa

basged(i) – basket(s)

wyres(au) – granddaughter(s)

trefnu – to arrange, to organise

dechreuwr (-wyr) – beginner(s)

lle(oedd) – place(s)

ŵyr (wyrion) – grandson(s)

parod – ready

dim eto – not yet

hanner tymor – half term

ychydig bach – a little bit

yn gyntaf – firstly, first of all

Syniad da!



'Dyn ni'n hoffi... Menteriau laith

There are 22 Menteriau laith (Language Initiatives) throughout Wales. Their aim is to enable people of all ages to use the Welsh language in their communities and to socialise through the medium of Welsh. They arrange various activities for fluent Welsh speakers and Welsh learners, such as concerts, drama clubs for children, canu gyda babi (singing with baby) art clubs and dosbarthiadau ioga. Why not search online for your local Menter laith? As well as practising your Welsh, you and your family can meet new friends and develop new skills.



Cân: Beth sydd yn y fasged siopa?

Beth sydd yn y fasged siopa?
fasged siopa, fasged siopa,
Beth sydd yn y fasged siopa?
Dewch i ni gael gweld.

Afal sy'n y fasged siopa,
fasged siopa, fasged siopa,
Afal sy'n y fasged siopa,
Rhywbeth neis i de.

*What's in the shopping basket?
shopping basket, shopping basket,
What's in the shopping basket?
Let's have a look.*

*There's an apple in the shopping basket,
shopping basket, shopping basket,
There's an apple in the shopping basket,
Something nice for tea.*

*Why not practise your new geirfa with this song?
You can replace afal with bara, pasta, creision...*

There is a great video of Y Fasged Siopa on the Caru Canu website:

 <https://www.youtube.com/watch?v=5jSaVx70N2c>



Tasg!

Hwrê! Eich tasg (*your task*) yw mynd i'r siop Gymraeg leol (*local Welsh shop*) a siarad Cymraeg gyda'r staff.



Sgwrs 1 – Ffonio'r pwall nofio

Derbynnydd: Pryn hawn da, Pwall Nofio Abercastell. Gaf i helpu?

Rhiant: Pryn hawn da. Dw i eisiau trefnu gwensi nofio i'r plant, Anna a Gwydion Jones. Maen nhw'n bump oed.

Derbynnydd: Wrth gwrs. Ydyn nhw'n gallu nofio ychydig bach?

Rhiant: Nac ydyn, dim o gwbl.

Derbynnydd: lawn, mae dosbarth nos Fercher am bump o'r gloch - dosbarth sblast i ddechreuwyr. Mae'r athro nofio yn y dŵr gyda'r plant. Mae'n neis iawn.

Rhiant: Da iawn. Gaf i gadw lle i'r plant?

Derbynnydd: Wrth gwrs. Anna a Gwydion Jones... pump oed... pump o'r gloch nos Fercher yn y dosbarth Sblast. lawn?

Rhiant: lawn. Beth yw'r pris?

Derbynnydd: Pedwar deg punt bob hanner tymor.

Rhiant: Ardderchog. Gaf i dalu nawr?

Derbynnydd: Cewch.

Rhiant: O na... gaf i ffonio wedyn i dalu? Dw i ddim yn gallu ffeindio'r cerdyn banc!

Derbynnydd: Wrth gwrs. Hwyl!

Rhiant: Hwyl!

Llenwch y bylchau gyda yn neu mewn

Fill in the gaps with yn or mewn

Helo, Rhian dw i. Dw i'n byw _____ tref fach yng Nghymru o'r enw Abercastell. Dw i'n gweithio _____ Cylch Meithrin. Mae'r Cylch Meithrin _____ Neuadd Abercastell. Dw i'n gyrru i Abercastell _____ y carbach coch bob bore. Mae'r Cylch yn dechrau am naw o'r gloch. Yn gyntaf, mae'r plant bach yn canu gyda fi. Wedyn 'dyn ni'n mynd ma's i chwarae. Dw i'n hoffi garddio gyda'r plant bach. Tua deg o'r gloch dw i'n gwneud bwyd i'r plant _____ y gegin. Maen nhw'n bwyta tost a banana neu afal. Ar ôl cael bwyd, 'dyn ni'n darllen stori _____ y lolfa ac yn peintio. Wedyn, amser chwarae! Am hanner dydd mae'r plant yn mynd adre. Dw i'n lico gweithio _____ y Cylch Meithrin.

Sgwrs 2

Caffi'r pwl nofio [yn edrych ar y dosbarth nofio]

A: Helô, gaf i eistedd yma?

B: Wrth gwrs. Ydy'r plant yn dysgu nofio?

A: Ydyn. Maen nhw yn y pwl nawr. Maen nhw'n hapus.

B: Mae'r athro nofio yn dda iawn. Maen nhw'n edrych yn hapus.

A: Ydyn. Maen nhw'n hoffi sblasio yn y dŵr. Dych chi'n byw yn Abercastell?

B: Ydw. Dw i yma gyda'r wyr, Ifan. Mae e yn y dosbarth yma hefyd. Dyna Ifan gyda'r bêl oren.

A: Ydy e'n mynd i Ysgol Abercastell?

B: Nac ydy, dim eto. Mae e'n dechrau yr wythnos nesa. Mae e eisiau mynd i'r ysgol nawr – mae e'n barod.

A: Mae'r plant yn hoffi'r ysgol.

B: Mae'n ysgol neis. Dw i'n gweithio yn Ysgol Abercastell. Dw i'n gweithio yn y gegin.

A: Wel wel. Chris dw i.

B: Lyn dw i. Ond Mrs Griffiths yn yr ysgol!

A: A! Chi yw Mrs Griffiths! Mae'r plant yn hoffi Mrs Griffiths!

B: Dw i'n hoffi'r plant i gyd – maen nhw'n hyfryd.



Prynon ni fara

Geirfa

hosan (sanau) – *sock(s)*

mwynhau – *to enjoy*

cewyn(nau) – *nappy(nappies)*

ffefryn(nau) – *favourite(s)*


arbennig – *special, excellent*

ers – *since*

ffa pob ar dost – *beans on toast*

methu aros – *can't wait*

tan tro nesa – *'till next time*



'Dyn ni'n hoffi... Yr Urdd

The Urdd is a national voluntary youth movement, with over 55,000 members aged between 8 and 25. Its aim is to give children and young adults opportunities to enjoy Welsh-medium activities and to contribute to their communities. The Urdd runs sports clubs and activities for children and young adults throughout Wales. It also organises Eisteddfod yr Urdd, which is Europe's largest youth festival, and has three residential centres: Llangrannog, Glan-llyn and Gwersyll Caerdydd (which is based at Cardiff's Millennium Centre).

Visit www.urdd.cymru for more information about how the Urdd could help you and your family speak Welsh and have fun!

Cân: Hei Mr Urdd

This song is about the Urdd mascot, Mr Urdd. Your children will learn a dance for this song - Dawns Mr Urdd – if they visit one of the Urdd's residential centres.

Watch the 2019 version of Hei Mr Urdd yma:

https://www.youtube.com/watch?v=2V0AJm_XcPc

Hei Mr Urdd yn dy goch, gwyn a gwyrrd,
 Mae hwyl i'w gael ym mhobman yn dy gwmni,
 Hei Mr Urdd tyrd am dro ar hyd y ffyrdd,
 Cawn ganu'n cân i holl ieuengtid Cymru.

*Hey Mr Urdd in your red, white and green,
 There's always fun to be had in your company,
 Hey Mr Urdd come for a walk along the roads,
 We'll sing our song to the youth of Wales.*



Parwch y llun gyda'r frawddeg gywir.
Match the pictures and sentences.



Gwylion ni'r teledu

Chwaraeon ni yn yr ardd


Gwnaethon ni gacen

Bwyton ni ffa pob ar dost

Cerddon ni i'r siop



Siaradon ni â ffrindiau



Sgwrs 1

Ceri: Helo! Croeso'n ôl!

Sam: Diolch. Dych chi'n iawn?
Ydy'r plant yn cysgu?

Ceri: Ydyn, ers wyth o'r gloch.
Mae popeth yn iawn.

Sam: Da iawn. Fwyton nhw swper?

Ceri: Do. Maen nhw'n blant da.

Sam: Beth wnaethoch chi wedyn?

Ceri: Gwnaethon ni jig-so a gwylion
ni CywTiwb. Yna, darllenon
ni stori.

Sam: Ble mae Sali Mai?

Ceri: Ie, y ffefrynn. Wnaethoch chi
fwynhau'r band?

Sam: Do! Chwaraeon nhw'n dda
iawn. Mae'r gitarydd yn
arbennig.

Ceri: Fwytoch chi ma's yn rhywle?

Sam: Do, bwyton ni yn Giovanni's.
Bendigedig!

Ceri: Da iawn. Dw i'n hoffi Giovanni's.
Dyw'r prisiau ddim yn rhad ond
mae'r pizzas yn dda iawn.

Sam: Wel, diolch yn fawr i ti Ceri.
Dyma'r arian i ti.

Ceri: Diolch!

Sam: Tan tro nesa – hwyl!

Ceri: Hwyl!

Sgwrs 2

Elin: Beth brynaist ti yn y siopau?

Lyn: Dim llawer. Bwyd, cewynnau a
sanau ysgol newydd i'r plant.

Elin: Unrhyw beth arall?

Lyn: Prynais i goffi yn y caffi
– bendigedig!

Elin: Welaist ti rywun?

Lyn: Do, gwelais i Jenny yn y stryd.
Siaradon ni dipyn bach.

Elin: Neis iawn.

Lyn: O, hefyd, prynais i'r esgidiau
yma... a'r trowsus yma.

Elin: Smart iawn. Dw i'n hoffi lliw y
trowsus.

Lyn: Dw i'n mynd i wisgo'r trowsus
heno. Wyt ti'n cofio? Dw i'n
mynd i'r cinema gyda'r merched.

Elin: A dw i'n mynd i gael tecawê
mawr! Dw i'n methu aros!

UNED 10

Es i'r dre

Geirfa

mam-gu – *grandmother*

cae(au) – *field(s)*

castell (cestyll) – *castle(s)*

cawell (cewyll) – *cage(s)*

cylchgrawn (cylchgronau) – *magazine(s)*

glaswellt – *grass, pasture*

sw (ŵau) – *zoo(s)*

doniol – *funny*

ar bwys – *by, beside*

dw i'n dwlu ar – *I love, I really like*

fel arfer – *usually*

yn anffodus – *unfortunately*

Syniad da!

'Dyn ni'n hoffi... Cylchgronau

Many Cylchgronau Cymraeg for children and young adults are published, which cater for all ages and interests. As well as traditional printed cylchgronau such as **Wcw** (for children under 5) and **Y Selar** (for 16-25 year olds), you'll find on-line publications such as **Lysh** (<https://www.lysh.cymru/> (aimed at 11-14 year old girls) and **Bore Da** (for Key Stage 2 children in English-medium education), **CIP** (for 7-10 year olds in Welsh-medium education) and **IAW** (for Welsh learners aged 11-18). To access **Bore Da**, **Cip** and **IAW**, visit urdd.cymru. For more information about other cylchgronau Cymraeg, visit your local Siop Gymraeg or go to: <http://www.gwales.com/magazine/?lang=EN&tsid=2>



Cân – Y Sw (Cyw)



Dewch 'da ni i'r sw-w-w
Wel am halibalŵ-w-w-w
Dewch gyda ni, ie ti a ni,
I'r sw-sw-sw!

*Come with us to the zoo-oo-oo
Well what a hullabaloo-oo-oo
Come with us, yes you and us,
To the zoo-zoo-zoo!*

<https://www.youtube.com/watch?v=OYqIOy6rUM0>

Geirfa Anifeiliaid Animals

Anifeiliaid anwes pets

- ci (cŵn) *dog(s)*
- cath(od) *cat(s)*
- mochyn (moch) *cwta guinea pig(s)*
- llygoden (llygod) *mouse (mice)*
- pysgodyn (pysgod) *goldfish*
- bochdew(ion) *hamster(s)*

Anifeiliaid y fferm farm animals

- iâr (ieir) *hen(s)*
- mochyn (moch) *pig(s)*
- dafad (defaid) *sheep*
- oen (wyn) *lamb(s)*
- buwch (buchod) *cow(s)*
- ceffyl(au) *horse(s)*
- hwyaden (hwyaid) *duck(s)*

Anifeiliaid y sw zoo animals

- pengwin(od) *penguin(s)*
- jiráff(od) *giraffe(s)*
- eliffant(od) *elephant(s)*
- llew(od) *lion(s)*
- teigr(od) *tiger(s)*

Sgwrs

Linda: Helô Sam, sut aeth y gwyliau?

Sam: Da iawn, diolch.

Linda: Aethoch chi i ffwrdd?

Sam: Do. Aethon ni i aros gyda ffrindiau, Carys a Gruff. Maen nhw'n byw yn Sir Benfro.

Linda: Hyfryd. Aethoch chi i lan y môr?

Sam: Do, wrth gwrs! Aethon ni i Draeth Mawr Tyddewi. Mae'n fendigedig. Aethon ni i Fferm Folly hefyd. Mae'r plant yn dwlu ar y pengwinod.

Linda: A fi! Maen nhw'n ddoniol.

Sam: Aethoch chi bant?

Linda: Naddo, arhoson ni gartre.

Ond aethon ni ma's bob dydd - i'r amgueddfa a'r castell a'r parc. Gwnaethon ni goginio a garddio hefyd.

Sam: Wel, amser ysgol nawr.

Linda: A dw i'n mynd i'r gwaith yn anffodus.

Sam: Hwyl, Linda!

Linda: Hwyl, Sam!

Cerdyn post




Darllenwch y cerdyn post gyda'ch partner a newidiwch y geiriau sydd wedi'u tanlinellu.

Read the postcard with your partner and replace the underlined words.

*Helo Mam-gu!
'Dyn ni'n mwynhau yn Llundain.
Aethon ni i'r sw ddoe. Gwelon ni anifeiliaid hyfryd. Wedyn aethon ni i siopa. Prynnon ni deganau newydd.
Mae hi'n dwym yma felly prynodd Mam het!*

*Gyda'r nos aethon ni i weld sioe.
Mae'r gwesty yn hyfryd a 'dyn ni'n bwyt a mewn caffis neis bob dydd.*

*Cwtsh mawr,
Sioned a Lili*



Mam-gu
12 Heol yr Eglwys
Pontypridd

Ces i dost i freqwast

Geirfa

anrheg(ion) – present(s)

edrycha! – look!

eleni – this year

y llynedd – last year

cyfrifiadur(on) – computer(s)

llythyr(au) – letter(s)

syrpréis(ys) – surprise(s)

caredig – kind

lwcus – lucky

Syniad da!



Mynd i weld Siôn Corn

Visiting Santa's Grotto is a magical experience for young children, and is a must-do activity for many families in the hectic run-up to Christmas. Ond mae Siôn Corn yn gallu siarad Cymraeg hefyd! Why not visit a Welsh-speaking Santa at a Ffair Nadolig held by your child's school or Cylch? Also, keep an eye out for Christmas activities organised by your local Menter Iaith or Siop Gymraeg to help you celebrate Nadolig yn Gymraeg. Nadolig Llawen!



Cân: Dymunwn Nadolig Llawen

Dymunwn Nadolig Llawen X3
A Blwyddyn Newydd Dda

We wish you a Merry Christmas X3
And a Happy New Year

 https://www.youtube.com/watch?v=jZ-_QzS7QnU

This version of the popular Christmas song can be found on **Hwyl yr Wylyl** by Mynediad am Ddim, which is available to buy on www.sain.wales or from i-tunes or Amazon.

Llythyr Siôn Corn

Darllenwch llythyr Aled i Siôn Corn ac atebwch y cwestiynau.

Read Aled's letter to Siôn Corn and answer the questions below.

Annwyl Siôn Corn,

Sut dych chi? Aled dw i. Dw i'n chwech oed a dw i'n byw yn Abertawe. Dw i'n hoffi darllen, Lego, pêl-droed a chwarae gemau ar y cyfrifiadur. Dw i ddim yn hoffi rygbi!

Diolch am anrhegion y llynedd. Dych chi'n garedig iawn! Eleni, gaf i set Lego Toy Story os gwelwch chi'n dda? Hefyd, gaf i ddillad pêl-droed Cymru, llyfrau, ceir bach a syrpréis?

Dw i'n mynd i wneud bisgedi i chi, a bwyd arbennig i'r ceirw.

Cariad mawr,
Aled



Cywir / Anghywir? ✓ ✗

Aled is seven years old.

Aled lives in Swansea.

He likes drawing.

He likes rugby.

Beth yw ...

You're very kind!

Football

Welsh football kit

small cars

Geirfa: Y Nadolig

Nadolig Llawen	twrci <i>turkey</i>	Y Tri Gŵr Doeth
<i>Merry Christmas</i>	pwdin Nadolig	<i>The Three Wise Men</i>
Blwyddyn Newydd Dda	<i>Christmas pudding</i>	coeden Nadolig
<i>Happy New Year</i>	calendr(au) adfent	<i>Christmas tree</i>
Siôn Corn	<i>advent calendar(s)</i>	addurn(iadau)
<i>Father Christmas</i>	cyngerdd Nadolig	<i>decoration(s)</i>
carw (ceirw)	<i>Christmas concert</i>	angel (angylion) <i>angel(s)</i>
<i>deer, reindeer</i>	ffair Nadolig	seren (sêr) <i>star(s)</i>
rhestr(i) <i>list(s)</i>	<i>Christmas fayre</i>	cerdyn (cardiau) Nadolig
sach(au) <i>sack(s)</i>	Mair, Joseff, y Baban lesu	<i>Christmas card(s)</i>
simnai (simneau)	<i>Mary, Joseph, Baby</i>	anrheg(ion) Nadolig
<i>chimney(s)</i>	<i>Jesus</i>	<i>Christmas presents</i>
cinio Nadolig	Y Bugeiliaid	
<i>Christmas dinner</i>	<i>The Shepherds</i>	

Sgwrs

Mam-gu / Tad-cu: Helo Alys fach,
Nadolig Llawen!

Alys: Nadolig Llawen!

Mam-gu / Tad-cu: Wel, beth gest ti?

Alys: Ces i feic mawr coch, dillad pêl-droed, llyfrau, doli a siocled.

Mam-gu / Tad-cu: Wel wel, rwyt ti'n lwcus!

Alys: Ydw, dw i'n lwcus iawn.

Mam-gu / Tad-cu: Pryd codaist ti?

Alys: Ym... eitha cynnar. Pedwar dw i'n meddwl.

Mam-gu/Tad-cu: Pedwar! Wel, wel.

Ble mae Mam a Dad nawr?

Alys: Maen nhw'n gwneud coffi. Maen nhw wedi blino.



Mae car gyda fi

Geirfa

Ilyschaer – stepsister

bwcio – to book

ar bwys – beside, by

bob yn ail – every other

dramor – abroad

o leiaf – at least

yn y cefn – in the back

de – south

gefell (gefeilliaid) – twin(s)

gogledd – north

Ilysfrawd – stepbrother

drwg – naughty

pell – far

Syniad da!

Mynd am dro

Mynd am dro with your child is a great activity. As well as enjoying some fresh air and exercise, it's a good opportunity to talk and introduce new vocabulary to your child. Remember to point things out and draw attention to your surroundings – and now you can do some of that yn Gymraeg!



‘Edrycha!’, ‘Drycha!’ or simply ‘Co!’ are used yn Gymraeg to mean ‘Look!’.

Cân: Heno Heno

This traditional lullaby, with its simple melody and lyrics, will soothe a little one to sleep in no time! Why not include some Cymraeg in your family's bedtime routine?

hen blant bach – *dear little children*
dime – *halfpenny*

Watch the Caru Canu version here:
<https://www.youtube.com/watch?v=3pIIRziNq7o>



Heno, heno, hen blant bach
Heno, heno, hen blant bach
Dime,dime, dime hen blant bach
Dime, dime, dime hen blant bach

Gwely, gwely, hen blant bach
Gwely, gwely, hen blant bach
Dime, dime, dime hen blant bach
Dime, dime, dime hen blant bach

Cysgu, cysgu, hen blant bach
Cysgu, cysgu, hen blant bach
Dime, dime, dime hen blant bach
Dime, dime, dime hen blant bach

Fory, fory, hen blant bach
Fory, fory, hen blant bach
Dime, dime, dime hen blant bach
Dime, dime, dime hen blant bach

Trafod oedran Discussing age

Mae Twm yn un oed.
Mae Twm yn ddwy oed.
Mae Twm yn dair oed.
Mae Twm yn bedair oed

Twm is one year old
Twm is two years old
Twm is three years old
Twm is four years old

1
oed

4
oed

In Uned 7, we practised using feminine numerals with money (dwy bunt, tair punt, pedair punt). You'll also notice their use with hours in Sgwrs 2 (pedair awr). Yn Gymraeg, we also use the feminine numerals with years and people's ages, as years are feminine. So, it doesn't matter whether you have a boy or a girl: we use feminine numerals when talking about their ages in years.

- Faint yw oedran Gwenan a Guto nawr?
- Mae hi'n ddwy oed ac mae e'n bedair oed.

However, if you have a baby or toddler, you'll need to use the usual numerals too as months are masculine:

Mae Olwen yn dri mis oed heddiw Mae Sam yn un oed a dau fis.

**Remember the soft mutation after yn or 'n ('Mae hi'n wyntog') as well as after dau or dwy.*

Sgwrs 1

Yn yr ysgol

Ifan: Oes brawd neu chwaer gyda ti?

Gwawr: Oes. Mae dau frawd bach gyda fi, Owain a Garan.
Maen nhw'n efeilliaid tair oed. A ti?

Ifan: Mae llysfrawd gyda fi, Ianto. Mae Ianto yn un deg
pump oed. Mae e'n byw gyda ni bob yn ail wythnos.
Dw i'n hoffi chwarae pêl-droed gyda fe.
Mae e'n prynu siocled i fi. Mae e'n cwl.

Gwawr: Rwyd ti'n lwcus!

Ifan: Ydw, dw i'n lwcus.

Gwawr: Mae Owain a Garan yn swnllyd ac maen nhw'n ddrwg. Dw i eisiau
brawd mawr!



Sgwrs 2

- A: Prynhawk da, gaf i helpu?
- B: Prynhawk da, dw i eisiau bwcio gwyliau i'r teulu.
- A: Wrth gwrs. Faint o bobl?
- B: Pump. Mae tri o blant bach gyda ni: maen nhw'n ddwy, tair a chwech oed.
- A: Dych chi eisiau mynd dramor?
- B: Nac ydyn. 'Dyn ni eisiau mynd i ogledd Cymru a 'dyn ni eisiau gwyliau ar y traeth. 'Dyn ni'n hoffi nofio yn y môr.
- A: Dych chi eisiau aros mewn gwesty neu mewn tŷ?
- B: Tŷ, plîs. Mae dau gi gyda ni. Maen nhw'n dod gyda ni ar y gwyliau.
- A: Dim problem. Faint o ystafelloedd gwely dych chi eisiau?
- B: Tair, plîs.
- A: lawn. Esgusodwch fi... dw i'n edrych ar y system... Wel, mae un tŷ gyda ni yn Ynys Môn ac un ar bwys Pwllheli.
- B: Hmm. Mae Ynys Môn yn bell. Mae'r plant bob amser yn dost yn y car, ac mae'r cŵn yn mynd yn grac iawn yn y car. Pwllheli felly!
- A: Gaf i ofyn... ble dych chi'n byw?
- B: Caerdydd.
- A: Mae Pwllheli'n bell hefyd – pedair awr yn y car, o leiaf. Dych chi'n mynd i yrro o Gaerdydd i Bwllheli gyda'r plant a dau gi crac? Dych chi'n siŵr?
- B: Hmm ...
- A: Dych chi eisiau gweld tŷ yn y de hefyd? Beth am Sir Benfro?
- B: Syniad da!



Roedd hi'n braf Geirfa

sach(au) stori – story sack(s)	penderfynu – to decide	gwelltyn (gwellt) – straw(s)
adeiladu – to build	rhuo – to roar	prawf (profion) – test(s)
chwythu – to blow	meddai – said	pren – wood
dringo – to climb	blaidd – wolf	cryf – strong
glanio – to land	carreg (cerrig) – stone(s)	gofalus – careful
	crochan – cauldron	

Syniad da!



Sach Stori

Sachau stori are great resources for young children. Usually, a sach stori contains a story book and objects such as puppets, toys, costumes and props which bring the story to life. Many children learn and retain information better when kinesthetic methods are used, such as role play and movement. Sachau stori can be bought, but it's easy to make your own – and much cheaper! With a little imagination, everyday objects can be used in a fun and interactive way. You'll find plenty of inspiration online on websites such as Pinterest.

Cân: Y Tri Mochyn Bach

Roedd 'na dri mochyn bach efo'i gilydd mewn cwt
A'u Mami wrth ei bodd efo'r tri,
Bob amser dywedai y fam soch soch
Dywedai'r moch bach wi-wi-wi.

*Three little pigs lived together in a sty
And their Mammy loved the three,
The mother always said soch soch
The little pigs said wee-wee-wee*



This song can be found on Holl Anifeiliaid y Goedwig by Plu, which is a great collection of Welsh songs for children.
<https://sainwales.com/store/sain/sain-scd2716>

Stori'r Tri Mochyn Bach

Darllenwch y stori yma gyda'ch plentyn

Amser maith yn ôl, roedd tri mochyn bach o'r enw Jac, Bob a Bil. Roedd y tri mochyn bach eisiau adeiladu tŷ.

Penderfynodd Jac adeiladu tŷ o wellt. Adeiladodd e'r tŷ yn gyflym iawn.

Penderfynodd Bob adeiladu tŷ o bren. Adeiladodd e'r tŷ pren yn gyflym iawn hefyd.

Penderfynodd Bil adeiladu tŷ o gerrig. Adeiladodd e'r tŷ yn araf ac yn ofalus. Roedd e'n hyfryd.

Un diwrnod, roedd blaidd mawr drwg yn mynd am dro ar bwys tai y tri mochyn bach. Yn gyntaf, gwelodd e'r tŷ gwellt.

"Helo Mistar Mochyn," meddai'r blaidd.
"Gaf i ddod i mewn?"
"Na chei, rwyd ti'n flaidd mawr drwg,"
atebodd Jac.
"Felly, dw i'n mynd i chwythu'r tŷ i lawr!"
rhuodd y blaidd, a chwythu'r tŷ gwellt
yn fflat i'r llawr.

Wedyn, gwelodd y blaidd y tŷ pren.

"Helo Mistar Mochyn," meddai'r blaidd.
"Gaf i ddod i mewn?"
"Na chei, rwyd ti'n flaidd mawr drwg,"
atebodd Bob.



"Felly, dw i'n mynd i chwythu'r tŷ i lawr!"
rhuodd y blaidd, a chwythu'r tŷ pren yn fflat i'r llawr.

Wedyn, gwelodd y blaidd y tŷ cerrig.

"Helo Mistar Mochyn," meddai'r blaidd.
"Gaf i ddod i mewn?"
"Na chei, rwyd ti'n flaidd mawr drwg,"
atebodd Bil.
"Felly, dw i'n mynd i chwythu'r tŷ i lawr!"
rhuodd y blaidd, a chwythu... a chwythu... a chwythu. Ond roedd y tŷ cerrig yn gryf. Felly, dringodd y blaidd i mewn i'r simnai. Ond, cafodd e sypréis!
Glaniodd e mewn crochan o gawl!
Rhedodd y blaidd i ffwrdd. Doedd e ddim eisiau gweld y tri mochyn bach eto!

Aeth Jac a Bob i fyw gyda Bil yn y tŷ cerrig, a byw yn hapus am byth.

Geirfa storïau

Amser maith yn ôl *A long time ago*
Un diwrnod *One day*

am byth *for ever*

Sgwrs

Rhiant: Beth sy'n bod, cariad?

Plentyn: Dw i'n dost.

Rhiant: O?

Plentyn: Mae annwyd arna i, ac mae clust dost gyda fi. Dw i'n dost iawn. Dw i ddim yn gallu mynd i'r ysgol heddiw.

Rhiant: Felly dwyt ti ddim yn gallu mynd i barti pen-blwydd Siôn heno? 'Dyn ni'n mynd i fowlia deg. Wyt ti'n cofio?

Plentyn: O... wel...

Rhiant: Oes prawf yn yr ysgol heddiw, cariad?

Plentyn: Oes.

Rhiant: Felly dwyt ti ddim yn dost?

Plentyn: Nac ydw.

Rhiant: O cariad, dyw'r prawf ddim yn bwysig. A heno, 'dyn ni'n mynd i gael amser da yn bowlia deg.



Ble ro'ch chi'n byw ac yn gweithio?

Geirfa

calon(nau) – *heart(s)*

coedwig(oedd) – *forest(s)*

gafr (geifr) – *goat(s)*

llysfa(m)(au) – *stepmother*

lladd – *to kill*

bob amser – *every time*

gofal plant – *childcare*

ei hunan – *herself / himself*

llawn / rhan amser – *full / part time*

o hyd – *still, always*

rhywbryd – *sometime*

llystad(au) – *stepfather(s)*

ofn(au) – *fear(s)*

anniben – *messy*

byw – *alive*

cas – *nasty*

gwag – *empty*

hardd – *beautiful*

Syniad da!



Amgueddfa Cymru

Amgueddfa Cymru is a family of seven museums located throughout Wales. You may have already visited one or more of these museums with your family. Ond wnaethoch chi siarad Cymraeg? Mae llawer o staff Amgueddfa Cymru yn siarad Cymraeg, felly dych chi'n gallu mwynhau diwrnod ma's a siarad Cymraeg. Mae adnoddau (resources) gyda Amgueddfa Cymru i helpu dysgwyr hefyd:

- Llwybrau Llafar Sain Ffagan –
<https://amgueddfa.cymru/media/45094/Llwybrau-Llafar.pdf>
- Pwll Mawr – <https://amgueddfa.cymru/geiriauglo/>
- Yr Amgueddfa Lechi – Camau Cymraeg –
https://museum.wales/media/42149/camau_cymraeg_intro.pdf
- Yr Amgueddfa Wlân – Gwau Geiriau – <https://amgueddfa.cymru/gwaugeiriau/>
Entry is free too!

Cân: Cyfri'r Geifr Counting the Goats

This popular folk song is sung at many Eisteddfodau but also in informal Welsh sing-songs.

This version was recorded for Dysgu Cymraeg by singer Siân James.

<https://www.youtube.com/watch?v=X-e-UcMxUOA>

Oes gafr eto? Oes heb ei godro?

Is there another goat? A goat that hasn't been milked?

Ar y creigiau geirwon mae'r hen afr yn crwydro.

On the craggy rocks the old goat is wandering

Gafr wen, wen, wen,

A white white goat

Ie finwen, finwen, finwen,


Yes white lipped, white lipped, white lipped,

foel gynffonwen, foel gynffonwen,

bald white tailed, bald white tailed,

ystlys wen a chynffon, wen-wen-wen.

A white flank and a tail, white, white, white.



Stori

Eira Wen

Rhan 1



Amser maith yn ôl, roedd tywysoges o'r enw Eira Wen. Roedd Eira Wen yn byw gyda'i llysfam, y Frenhines. Roedd y Frenhines yn gas iawn.

Roedd Eira Wen yn hardd. Roedd y frenhines yn hardd hefyd, ac roedd drych hud gyda hi i weld ei hunan. Bob bore, roedd y Frenhines yn gofyn:

“O ddrych hud, pwyl yw'r harddaf yn y byd?”

Roedd y drych bob amser yn ateb, “Ti, wrth gwrs!”

Ond un diwrnod, atebodd y drych: “Eira Wen yw'r harddaf yn y byd.”

Doedd y frenhines ddim yn hapus. Felly, aeth hi i weld yr heliwr.

“Heliwr,” meddai'r Frenhines, “Dw i eisiau i ti ladd Eira Wen a dw i eisiau gweld calon Eira Wen.”

Aeth Eira Wen i'r goedwig gyda'r heliwr. Ond doedd e ddim yn gallu lladd Eira Wen. Roedd hi'n hyfryd. Felly, lladdodd e anifail a rhoi calon yr anifail i'r Frenhines.

Cerddodd Eira Wen yn y goedwig. Roedd hi wedi blino. Gwelodd hi dŷ bach twt. Aeth hi i mewn i'r tŷ bach twt. Roedd e'n wag, ond roedd e'n anniben iawn! Roedd popeth yn fach hefyd. Bwrdd bach, cadeiriau bach a saith gwely bach. Dechreuodd Eira Wen lanhau'r tŷ. Wedyn, aeth hi lan llofft i gysgu mewn gwely bach.

Yna, clywodd hi bobl yn y tŷ. Roedd ofn arni hi. Roedd saith corrach bach yn y tŷ!
“Pwy wyt ti?” meddai un corrach bach.

“Eira Wen dw i. Mae llysfam gas gyda fi. Gaf i aros yma gyda chi? Dw i'n gallu helpu yn y tŷ. Dw i'n gallu coginio.”

“Wrth gwrs. Croeso, Eira Wen.”

Yn y palas, roedd y Frenhines yn siarad â'r drych.

“O ddrych hud, pwyl yw'r harddaf yn y byd?”

Atebodd y drych: “Eira Wen, mae hi'n fyw o hyd!”

Doedd y Frenhines ddim yn hapus. Felly, gwnaeth hi fodion hud. Yfodd hi'r moddion. Nawr, roedd hi'n edrych fel hen fenyw, ac roedd afal gwenwynig gyda hi...

Geirfa Storiau

tywysoges *princess*
 tywysog *prince*
 brenhines *queen*
 brenin *king*
 drych hud *magic mirror*
 Pwy yw'r harddaf yn y byd?
Who's the fairest one of all?

palas *palace*
 heliwr *hunter*
 yn sydyn *suddenly*
 corrach *dwarf*
 moddion hud *magic potion / medicine*
 hen fenyw *old woman*
 afal gwenwynig *poisoned apple*

Sgwrs

Siân: Helo Lyn, sut wyt ti?
Lyn: Da iawn diolch, a ti?
Siân: Da iawn hefyd, diolch. Ble rwyt ti'n gweithio nawr?
Lyn: Dw i ddim yn gweithio. Mae tri o blant bach gyda fi a dw i gartre gyda nhw. Cyn cael y plant, ro'n i'n gweithio i'r Cyngor. Oes plant gyda ti?
Siân: Oes, mae dau o blant gyda fi.
Lyn: Wyt ti'n gweithio?
Siân: Ydw. Dw i'n gweithio'n rhan amser. Mae hi'n anodd gweithio

bob dydd gyda phlant bach ac mae gofal plant yn ddrud.
Lyn: Ydy! Wel, dw i'n mynd i gasglu'r plant nawr, ond beth am gael coffi rhywbryd?
Siân: Gwych!



Adolygu ac Ymestyn

Geirfa

rhaglen(ni) – programme(s)

benthyg – to borrow

cusanu – to kiss

marchogaeth – to ride (a horse)

sgrechian – to scream

marw – to die

ar ôl – after

cawn ni weld – we'll see

dewch gyda fi – come with me

tu fas – outside

yn y wlad – in the country

aelod(au) – member(s)

dibyn(nau) – precipice(s), steep cliff(s)

peth(au) – thing(s)

Syniad da!



Gwyliau S4C


Dych chi'n edrych ar Cyw gyda'r plant. Ond mae rhagleni ardderchog i'r teulu ar S4C hefyd. *Watching Welsh programmes will help develop your vocabulary and listening skills, and you can switch on subtitles in Welsh or English when things get difficult.* S4C's Clic catch-up TV service has a section for Welsh learners, featuring series about learning Welsh such as Iaith ar Daith as well as popular programmes such as Heno which use simpler forms of Welsh. Beth am wyliau S4C heddiw?

<https://www.s4c.cymru/clic/>

[Categories/26](#)




Cân: Dinas Caerdydd gan (by) Mynediad am Ddim



- 1 Dewch gyda ni i ddinas Caerdydd X3
I weld y Maer a'r Faeres
- 2 Mynd mewn bws i ddinas Caerdydd X3
I weld y Maer a'r Faeres
- 3 Mynd mewn car i ddinas Caerdydd X3
I weld y Maer a'r Faeres
- 4 Mynd ar gefn beic i ddinas Caerdydd X3
I weld y Maer a'r Faeres
- 5 Mynd mewn fan i ddinas Caerdydd X3
I weld y Maer a'r Faeres
- 6 Mynd mewn awyren i ddinas Caerdydd x3
I weld y Maer a'r Faeres

*Come with us to Cardiff city
To see the Mayor and Mayoress
Going in a bus to Cardiff city
To see the Mayor and Mayoress
Going in a car to Cardiff city
To see the Mayor and Mayoress
Going on a bike to Cardiff city
To see the Mayor and Mayoress
Going in a van to Cardiff city
To see the Mayor and Mayoress
Going in an aeroplane to Cardiff city
To see the Mayor and Mayoress*

From Hwyl Wrth Ganu by Mynediad am Ddim (Sain, 2003). Available to buy from www.sainwales.com, i-tunes and Amazon Music.



Stori Eira Wen Rhan 2

Aeth y Frenhines i edrych am Eira Wen. Ffeindiodd hi'r tŷ bach twt a gweld Eira Wen yn y gegin.

“Helo cariad,” meddai'r Frenhines.
“Helo, pwy dych chi?” meddai Eira Wen.

“Hen wraig fach dw i. Mae afalau gyda fi. Afalau coch hyfryd. Wyt ti eisiau afal?”

“Dim diolch.”

“Afal coch hyfryd... mmm.

Bendigedig.”

“O iawn. Diolch yn fawr.”

Bwy todd Eira Wen damaid bach o'r afal. Wedyn, cwymodd hi i'r llawr.

“Ha ha! Mae hi wedi marw!”

Sgrechiodd y Frenhines. “Nawr, fi yw'r harddfaf yn y byd!”

Roedd y saith corrach yn cerdded adref. Gwelon nhw'r Frenhines yn rhedeg i ffwrdd o'r tŷ bach twt. Rhedon nhw ar ôl y Frenhines yn gyflym.

Wedyn, cwymodd y Frenhines dros y dibyn.

Yn y tŷ bach twt, roedd Eira Wen ar y llawr yn y gegin. Doedd hi ddim yn symud. Roedd y saith corrach yn drist iawn. Gwnaethon nhw wely i Eira Wen yn y goedwig. Ro'n nhw'n rhoi blodau i Eira Wen bob dydd.

Un diwrnod, roedd tywysog yn marchogaeth yn y goedwig. Gwelodd e Eira Wen yn y gwely. Cwymodd e mewn cariad gyda hi. Cusanodd e Eira Wen ... a dihunodd hi!

“Mae hi'n fywl!” meddai'r saith corrach. Ro'n nhw'n hapus iawn.

Rhoiodd Eira Wen gwtsh mawr i'r saith corrach. Wedyn, aeth hi gyda'r tywysog i'r palas. Roedd pawb yn hapus.



Sgwrs 1

Plentyn: Mam-gu, beth o't ti'n hoffi wneud pan o't ti'n blentyn?

Mam-gu: Wel, ro'n i'n byw yn y wlad. Ro'n i'n hoffi chwarae gyda'r ci. Ro'n i'n hoffi darllen hefyd.

Plentyn: Beth am gemau ar y cyfrifiadur a'r ffôn?

Mam-gu: Doedd dim cyfrifiadur gyda fi. Doedd dim ffôn gyda fi chwaith.

Plentyn: Dyna ofnadwy! Dim cyfrifiadur! Dim ffôn!

Mam-gu: Ro'n i'n hapus iawn. Doedd pethau ddim yn ofnadwy! Roedd ffrindiau da gyda fi. Ro'n ni'n cael hwyl. Ond, dw i'n hoffi chwarae gemau gyda ti.

Plentyn: Dw i'n gwybod. Rwyd ti'n chwarae gêm y ceir yn dda! Beth am gêm nawr?

Mam-gu: Syniad da.

Plentyn: Dw i'n mynd i ennill heddiw.

Mam-gu: Hmm, cawn ni weld!

Ymarfer wedi

Wyt ti wedi yfed y llaeth?

Wyt ti wedi gorffen y llaeth?

Wyt ti wedi darllen y llyfr?

Wyt ti wedi gorffen y llyfr?

Wyt ti wedi gwneud y gwaith cartref?

Wyt ti wedi gorffen y gwaith cartref?

Wyt ti wedi blino?

Gyda'ch partner, *think of four other useful questions to ask your child / children using wedi.*

1

2

3

4

Rhifau, Amser ac Arian

Geirfa

amserlen(ni) – *timetable(s)*

meithrinfa (meithrinfeydd)
– *nursery (nurseries)*

dewis – *to choose*

cyn bo hir – *soon*

Gwela i chi yfory – *See you tomorrow*

dim ond – *only*

Syniad da!



Dysgu eich plentyn i ddweud yr amser

Teaching your child to tell the time

It is common practice to establish routines with children, and this often includes time limits.

Nawr dych chi'n gallu dweud yr amser yn Gymraeg, why not teach your child to tell the time yn Gymraeg hefyd? And practise your Cymraeg when you are setting your time limits, e.e. ugain munud ar y cyfrifiadur heno.



Cân: Hicori dicori doc


This Welsh version of the popular English nursery rhyme is a great way to practise numbers with your child.

Hicori dicori doc,	<i>Hickory dickory dock,</i>
Llygoden lan y cloc,	<i>A mouse up the clock,</i>
Mae'n taro tri	<i>It strikes three</i>
I lawr â hi	<i>Down she goes</i>
Hicori dicori doc	<i>Hickory dickory dock.</i>

Listen here to a recording made by

Llyfrgelloedd Abertawe:

<https://audioboom.com/posts/783785-10-hicori-dicori-doc>



Ymarfer

Gyda'ch partner, *take turns to fill in the gaps, ask the questions and respond.*

?

Mam / Dad, gaf i'r car yma?
Dim ond ugain punt yw e.

Ateb

✗ Na chei, mae e'n rhy ddrud.

Mam/Dad, gaf i'r trêñ yma?
Dim ond (£10) ____ yw e.

✓ Cei, dyw e ddim yn rhy ddrud.

Mam/Dad, gaf i'r beic yma?
Dim ond can punt yw e.

✗ Na chei, mae e'n rhy ddrud.

Mam/ Dad, gaf i'r llyfr lliwio yma?
Dim ond (£2) ____ e.

✓ _____

Mam/ Dad, gaf i hufen iâ?
Dim ond (£3.50) ____ yw e.

✗ _____

Sgwrs ar y ffôn

Llyfrgellydd: PrynAWN da, LlyfrGELL Abercastell. Gaf i helpu?

Cwsmer: PrynAWN da. Dw i eisiau help, plîs. Dw i eisiau benthyg llyfrau Cymraeg i'r plant.

Llyfrgellydd: Dych chi'n aelodau?

Cwsmer: Ydyn. Dw i a'r plant yn aelodau. Owens yw'r enw. Dyma'r rhif: tri pedwar pump chwech wyth dau.

Llyfrgellydd: lawn, diolch. Wel, dw i'n gallu dewis llyfrau i chi. Wedyn, dych chi'n gallu casglu'r llyfrau heddiw neu fory.

Cwsmer: Faint o'r gloch dych chi'n cau?

Llyfrgellydd: 'Dyn ni'n cau am bump o'r gloch.

Cwsmer: lawn... wel, mae hi'n bum munud i bump nawr felly dw i ddim yn gallu dod heddiw ond dw i'n gallu dod yfory.

Llyfrgellydd: Da iawn... wel, beth am y llyfrau? Faint yw oed y plant?

Cwsmer: Mae Cai'n bedair ac mae Cadi'n wyth oed.

Llyfrgellydd: Beth am Y Gryffalo yn Gymraeg i Cai?

Cwsmer: Hyfryd. Llyfr da i Cai.

Llyfrgellydd: Nawr, plentyn wyth oed... ydy hi'n hoffi darllen?

Cwsmer: Ydy. Mae hi'n darllen nofelau.

Llyfrgellydd: Beth am Na Nel Wps? Mae plant wyth oed yn hoffi nofelau Na Nel.

Cwsmer: Diolch yn fawr, dewis da.

Llyfrgellydd: Rhywbeth arall?

Cwsmer: Nofel i fi, plîs. Dw i eisiau rhywbeth i ddarllen yn y bath.

Llyfrgellydd: lawn. Mae llyfr newydd Bethan Gwanas yma.

Cwsmer: Da iawn, dw i'n hoffi llyfrau Bethan Gwanas. Diolch yn fawr.

Llyfrgellydd: Hwyl! Gwela i chi yfory.



Meithrinfa'r Mwnci Melyn

Amserlen Macsen (grŵp 2-3 oed)

Amser	Gweithgaredd
-------	--------------

08:15 cyrraedd

09:00



09:30 Canu a dawsio

10:30 Chwarae tu fas

12:15



12:45 Amser stori

13:15



15:15 Amser te

15:45 Celf a chrefft

16:45 Mynd adre

Atebwch y cwestiynau
in full sentences, e.e.

Faint o'r gloch mae
Macsen yn cyrraedd
Meithrinfa'r Mwnci Melyn?

Mae Macsen yn cyrraedd
am chwarter wedi wyth

1. Faint o'r gloch mae
Macsen yn cael
brecwast?

.....
.....
.....

2. Beth mae Macsen yn
wneud am hanner awr
wedi naw?

.....
.....
.....

3. Faint o'r gloch mae
Macsen yn cael cinio?

.....
.....
.....

4. Beth mae Macsen yn
wneud am chwarter
wedi un?

.....
.....
.....

5. Faint o'r gloch mae
Macsen yn mynd adre?

.....
.....
.....

Bydd hi'n braf yfory

Geirfa

cot law (cotiau glaw) – *raincoat(s)*

het haul (hetiau haul) – *sunhat(s)*

bydd angen – *you will need*

dyna drueni – *what a shame*

eli haul – *suncream*

gwarcheidwad (gwarcheidwaid) – *guardian(s)*

nodyn (nodiadau) – *note(s)*

siomedig – *disappointed, disappointing*

Syniad da!



Siarad Cymraeg *outside the classroom*

By now, you have learnt lots of Welsh words and have the ability to converse in Welsh about various topics. But, the only way to become a fluent Welsh speaker is to speak Welsh as often as possible.

Don't worry about making mistakes – the important thing is to give it a go. If you don't have friends or family who speak Welsh, why not start a sgwrs yn Gymraeg with your child's teacher or carer? They'll be thrilled that you're making the effort to support your child through Welsh medium education and will be happy to help you. If you're too nervous to switch to Welsh, you can start throwing in a few Welsh phrases and build up gradually to whole sentences before eventually having whole conversations yn Gymraeg. Ewch amdani! Go for it!



Cân: Gee ceffyl bach

This popular nursery rhyme is great fun to sing with young children as it's a 'falling down' song with movements. This video produced by Denbighshire Book Trust shows how it's done!

 <https://www.youtube.com/watch?v=ia9Ihl1aiZY>

Gee ceffyl bach yn cario ni'n dau
 Dros y mynydd i hela cnau
 Dŵr yn yr afon a'r cerrig yn slic
 Cwympon ni'n dau, wel dyna'i chi dric!

*Gee up little horse, carrying us both
 Over the mountain to collect nuts
 Water in the river and slippery stones
 We both fell in, well what a trick!*



Sgwrs 1

Rhiant: Helo cariad, sut oedd yr ysgol?

Plentyn: Grêt! Mae trip ysgol yr wythnos nesa.

Rhiant: O, dyna neis. Fydd pawb yn mynd?

Plentyn: Dim ond blwyddyn un.

Rhiant: Ble bydd y trip?

Plentyn: Sain Ffagan.

Rhiant: Pryd?

Plentyn: Dw i ddim yn cofio ond mae llythyr yn y bag. Dw i'n methu aros!



Nodyn i Rieni / Gwarcheidwaid,



Bydd Blwyddyn I yn mynd i Sain Ffagan
dydd Gwener 25 Medi.

Bydd y bws yn gadael yr ysgol am 9:30.

Bydd angen:

- brechdanau a dŵr
- het haul
- eli haul
- cot law
- dwy bunt i brynu hufen iâ

Look at the pictures below. Put a ✓ next to all items that should be taken on the trip and a ✗ next to all unnecessary items.



Sgwrs 2



Rhiant 1: Helo, sut wyt ti?

Rhiant 2: lawn diolch, sut wyt ti?

Rhiant 1: lawn, ond mae newyddion
drwg gyda fi. Sori, ond fydd
Gwenllian ddim yn gallu dod i
barti Noa fory.

Rhiant 2: O, dyna drueni. Bydd Noa yn
siomedig. Beth sy'n bod?

Rhiant 1: Mae gwres arni hi, a dyw
hi ddim eisiau bwyta. Bydd
hi'n aros gartre yfory.

Rhiant 2: O, Gwenllian fach.
Gobeithio bydd amser
tawel ar y soffa yn help.

Rhiant 1: Gobeithio.

Rhiant 2: Wel, diolch am ffonio.

Rhiant 1: Dim problem. Hwyl!

Rhiant 2: Hwyl!



Byddai'n mynd

Geirfa

rhewgell(oedd) – freezer(s)

ymarfer – practice

rholi – to give

Bant â ni! – Off we go!

Brysiwch! – Hurry up (plural)

zelf a chrefft – arts and crafts

Dere! – Come on! (singular)

Siapa hi! – Shape up! Move it!

Y flwyddyn nesa – Next year

Syniad da!



Yr Eisteddfod

The Eisteddfod is an ancient Welsh tradition, dating back to the 12th century when Yr Arglwydd Rhys staged the first Eisteddfod at Cardigan castle, where chairs were awarded to the best poet and musician. Chairs are still given to poets at Eisteddfodau, but many other competitions are held too, such as singing, recitation, dancing (traditional and modern) and even cooking.

Three large Eisteddfodau are held every year in Wales: The National Eisteddfod, the Urdd Eisteddfod (for children and young adults) and the Llangollen International Eisteddfod. Most Welsh-medium schools compete in the Urdd Eisteddfod and have to get through local rounds: Eisteddfod Cylch neu Gylch (local) and Eisteddfod Sir (County) to reach the main event. Many smaller Eisteddfodau are held in towns and villages throughout Wales, which provide great opportunities for budding singers, actors and musicians to perform in front of an audience. Your child's school might have a St David's Day Eisteddfod, which is also an opportunity to look cute in national costume!

Both the Urdd and National Eisteddfod are held on a Maes (field) with stalls, performances, exhibitions and activities all day. You don't have to take part in any competitions to visit these Eisteddfodau, and you don't have to be able to speak Welsh – although the Maes is a perfect place to practise your Cymraeg!

For more information on how you and your family can enjoy the Urdd and National Eisteddfod, visit

<https://www.urdd.cymru/en/eisteddfod/>

<https://eisteddfod.cymru/>

Details of local Eisteddfodau can be found here: http://smala.net/steddfota/?page_id=285

Cân: Hen Fenyw Fach Cydweli

This lively song is a popular choice in Alaw Werin (Folk tune) singing competitions at the Eisteddfod.


Hen Fenyw Fach Cydweli
 Yn gwerthu losin du
 Yn rhifo deg am ddimau
 Ond un ar ddeg i mi!

*Little old lady of Kidwelly
 Selling black sweets
 Counting ten for a halfpenny
 But eleven for me!*

Mae llawer o fersiynau hyfryd o'r
 gân ar youtube:



<https://bit.ly/2U3BPGu>



Sgwrs 1

Yn yr ysgol



Plentyn: Mrs Jones, beth fydd yr ysgol yn wneud yn yr Eisteddfod?

Mrs Jones: Byddwn ni'n gwneud y côr a'r gân actol.

Plentyn: O, dw i eisiau bod yn y côr.

Mrs Jones: Wel, mae'n ddrwg gyda fi ond dyw Blwyddyn Pedwar ddim yn y côr, dim ond Blwyddyn Pump a Chwech.

Plentyn: O, dyna drueni.

Mrs Jones: Paid â phoeni, byddi di'n gallu canu yn y côr y flwyddyn nesa. Beth am wneud rhywbeth arall eleni? Beth am wneud cystadleuaeth Celf a Chrefft?

Plentyn: Syniad da. Dw i'n hoffi Celf a Chrefft. Diolch Mrs Jones.

* cân actol *A short musical play, which is a competition at the Urdd Eisteddfod*

Ymarfer – Ymatebion

Gyda’ch partner, take turns to ask the questions, respond and fill the gaps. Then, replace the underlined words with other words that you know.

- | | |
|--------------------------------------|--|
| Fyddi di’n <u>coginio</u> heno? | ✓ Byddha, dw i’n hoffi <u>coginio</u> . |
| Fyddi di’n <u>nofio</u> yfory? | ✗ Na fydda, dw i ddim yn hoffi <u>nofio</u> . |
| Fydd hi’n <u>garddio</u> yfory? | ✗ Na fydd, dyw hi ddim yn hoffi <u>garddio</u> . |
| Fydd e’n <u>smwddio</u> heno? | ✗ _____ |
| Fyddan nhw’n <u>darllen</u> heno? | ✓ _____ |
| Fydd y plant yn <u>tacluso</u> heno? | ✗ _____ |

Dysgwch nawr:

- | | |
|------------------------------------|----------------------------|
| Fydda i yn y tîm? | Byddi, wrth gwrs. |
| Fydda i yn y sioe? | Na fyddi, y flwyddyn nesa. |
| Fyddwn ni’n cystadlu? | Byddwch, yn y côr. |
| Fyddwn ni’n cael crempogau heddiw? | Na fyddwch, dydd Sadwrn. |

Llongau Rhyfel

Beth fyddwn ni’n wneud dydd Sadwrn? Fyddwn ni’n...?

✓ Byddwn / ✗ Na fyddwn

mynd i weld Mam-gu a Tad-cu	mynd i nofio	chwarae pêl-droed	coginio
mynd i'r sinema	chwarae rygbi	mynd i fowlio deg	siopa
mynd i'r llyfrgell	gwneud gwaith cartref	mynd i'r parc	chwarae yn yr ardd
gwneud celf a chrefft	codi'n hwyr	mynd am dro	mynd i'r caffi

Yn y bore – Mam, Dad, Osian (10 oed) ac Elan (14 oed)

1**2****3****4****5****6**

Translate the phrases below. Try not to look at the comic strip.

1. We'll be late
2. I'm in the bathroom
3. I haven't had breakfast
4. The bus will be here soon
5. I'll be late tonight
6. I'll be able to pick up Osian

Fy

Geirfa

grŵp (grwpiau) – group(s)

croeso cynnes – warm welcome

cyfnod mamolaeth – maternity leave

cyfryngau cymdeithasol – social media

gwely cynnar – an early night

Syniad da!



Cyfryngau Cymdeithasol

These days, most of us use some kind of cyfryngau cymdeithasol to keep in touch with ffrindiau a'r teulu or to get the latest information about current affairs and celebrities. But why not use them yn Gymraeg? Mudiad Meithrin, Mentrau Iaith a'r Urdd share information regularly (yn Gymraeg ac yn Saesneg) through cyfryngau cymdeithasol, and your child's school or nursery probably does too. As well as getting the latest information about gweithgareddau Cymraeg for your teulu, reading a little bit of Welsh every day will improve your vocabulary and many social media accounts have been set up to support Welsh learners. You can also make ffrindiau newydd and create new on-line networks with people who share your interests and your passion for Cymraeg. Ewch amdani! Here are some suggestions to get you started:



@learn cymraeg



@MudiadMeithrin



@urdd



@cymraeg



@SerenaSbarc



@DailyWelshWords



@S4CDysguCymraeg



@criwCYW




@mentrau iaith


Cofiwch, you can also use other platforms such as Facebook and Instagram to follow pobl, pethau a grwpiau yn Gymraeg.

Cân: Fy Ngafn, Fy Nghath

Why not practise the treiglad trwynol with this song from Ffrindiau'r Wyddor? You'll find this Resource on the Welsh Government's Hwb website (www.hwb.gov.wales)



Mae fy nghath yn gath fach dlos,
My cat is a pretty little cat,
 Mae fy nghath yn hela'r nos,
My cat hunts at night,
 Mae fy nghath ar y soffa goch,
My cat is on the red sofa,
 Yn llyfu fy nghoes, fy ngân a fy moch.
Licking my leg, my chin and my cheek.



Sgwrs 1

Rhiant: Noa, mae Gethin eisiau chwarae gyda ti.
Noa: Dw i'n brysur.
Rhiant: Mae e eisiau chwarae gyda'r car coch.
Noa: Na, fy nghar i yw e.
Rhiant: Beth am y trêñ?
Noa: Na, fy nhrêñ i yw e.
Rhiant: Ydy e'n gallu chwarae gyda tedi?

Noa: Nac ydy. Fy nhedi i yw e.
Rhiant: lawn, dw i'n mynd i chwarae gyda Gethin. Dere 'ma Gethin bach. Wyt ti eisiau cwtsh?
Noa: Na, paid! Fy mrawd i yw e!
 Dw i eisiau chwarae gyda fe.
 Dw i ddim yn brysur nawr.
Rhiant: Da iawn Noa. Bachgen da.



Ymarfer - arddodiaid (prepositions)

Choose the correct arddodiaid to fill in the blanks. Then, write your own sentences using arddodiaid.

yn

dan

wrth

ar

Mae'r mat _____ y llawr. Mae'r gadair _____ y bwrdd.

Mae'r teganau _____ y bocs. Mae'r postmon _____ y drws.

1

.....

2

.....

3

.....

4

.....



Ymarfer - y treiglad trwynol

Work with your partner to fill in the blanks using the treiglad trwynol. Then, practise asking and responding to the questions.

Ble mae'r plant?

Mae fy mhlant i yn y car.

Ble mae'r car?

Mae fy _____ i yn y garej ar bwys y tŷ.

Ble mae'r tŷ?

Mae fy _____ i yn y pentref.

Ble mae'r pentref?

Mae fy _____ i ar bwys Llanilltud Fawr.


Ble mae Llanilltud Fawr?
[Bro Morgannwg]

Mae Llanilltud Fawr ym _____ .

Ble mae Bro Morgannwg?
[de Cymru]

Mae Bro Morgannwg yn _____ .

Sgwrs 2



Non: Helô, sut wyt ti Linda?

Linda: Iawn, ond wedi blino! Es i'n ôl i'r gwaith heddiw ar ôl fy nghyfnod mamolaeth.

Non: O, sut aeth hi?

Linda: Wel, roedd llawer o waith ar fy nesg ond ces i groeso cynnes ac roedd hi'n neis gweld pawb.

Non: Da iawn. Sut roedd y plant?

Linda: Roedd y plant yn iawn. Roedd Marged, y babi, yn crio tipyn bach yn y feithrinfa ond roedd

hi'n iawn yn y prynhawn. Mae Robin, fy mab, yn hoffi mynd i'r ysgol felly doedd dim problem.

Non: Wyt ti'n gwneud rhywbeth heno?

Linda: Nac ydw, diolch byth. Mae Beth, fy mhartner, yn coginio swper i ni. Wedyn, bath a gwely cynnar – i'r plant ac i fi!

Non: Syniad da. Hwyl nawr!

Linda: Hwyl!

UNED 20

Dy / Eich Geirfa

braich (breichiau) – arm(s)

ceg(au) – mouth

coes(au) – leg(s)

llaw (dwylo) – hand(s)

sedd(au/i) – seat(s)

ysgwydd(au) – shoulder(s)

***bola (boliau) – belly (bellies)**

llwyfan (llwyfannau) – stage(s)

poced(i) – pocket(s)

trwyn(au) – trwyn(au)

Mwynhewch! – Enjoy!

y blaen – the front

* Dych chi wedi gweld y gair **bol** (*stomach*) yn Uned 13, but the word **bola** is usually used with young children in South Wales.

Syniad da!



Tric a Chlic

Tric a Chlic is an innovative literacy scheme used in schools throughout Wales to teach young children to read and write yn Gymraeg. As well as traditional resources such as books and flash cards, Tric a Chlic has many interactive activities and games to engage young learners. Dych chi hefyd yn gallu defnyddio Tric a Chlic gartref. A support pack for parents has been developed, as well as a free app.

Visit <https://peniarth.cymru/en/> for more information, or follow @TricaChlic on Facebook and Twitter.



Cân: Pen, ysgwyddau, coesau, traed.

This is the Welsh version of ‘Heads, shoulders knees and toes’, but we sing about slightly different body parts yn Gymraeg (see below). Your child will learn this song in Cylch or school.

Pen, ysgwyddau, coesau, traed, coesau, traed x2

Head, shoulders, legs, feet, legs, feet

Llygaid, clustiau, trwyn a cheg

Eyes, ears, nose and mouth

Pen, ysgwyddau, coesau, traed, coesau, traed


Here is the Caru Canu version of the song:



<https://www.youtube.com/watch?v=3RwgAYVntUg>




Tasg – Y Corff



Gyda’ch plentyn,
*name the body parts yn
Gymraeg. Most Welsh
words for body parts are
feminine nouns.*

*To help you learn which
body parts are feminine
and which are masculine,
you will label the girl
with the feminine nouns
and the boy with the
masculine nouns.*


**You’ll notice that most body
parts have the –au plural
ending, but remember that
more than one ‘llaw’ is ‘dwylo’
and more than one ‘troed’ is
'traed'.*



Tasg – Y Corff

Gyda'ch partner, *practise asking and answering these questions, which use the treiglad meddal and treiglad trwynol. After some practice, try not to look at the answers when responding. You can also ask these questions to your child, to teach the body parts yn Gymraeg.*

Pen	Ble mae dy ben di?	Dyma fy mhen i.
Gwallt	Ble mae dy wallt di?	Dyma fy ngwallt i.
Trwyn	Ble mae dy drwyn di?	Dyma fy nhrwyn i.
Ceg	Ble mae dy geg di?	Dyma fy ngheg i.
Dannedd	Ble mae dy ddannedd di?	Dyma fy nannedd i.
Breichiau	Ble mae dy freichiau di?	Dyma fy mreichiau i.
Bola	Ble mae dy fola di?	Dyma fy mola i.
Coesau	Ble mae dy goesau?	Dyma fy nghoesau i .
Traed	Ble mae dy draed?	Dyma fy nhraed i.



Sgwrs - Yng nghyngerdd yr ysgol

- Athro:** Noswaith dda, croeso i'r cyngerdd. Gaf i eich tocyn chi os gwelwch chi'n dda?
- Rhiant:** Wrth gwrs ... o na, ble mae e? Dyw e ddim yn fy mag. O, dyma fe yn fy mhoced – diolch byth! Dyma chi.
- Athro:** Diolch yn fawr.
- Rhiant:** Ble dw i'n gallu eistedd? Oes lle yn y blaen, ar bwys y llwyfan?
- Athro:** Oes, mae un sedd yn y blaen.
- Rhiant:** Da iawn, dw i eisiau gweld fy mhlentyn yn dda. Mae hi'n caru canu!
- Athro:** Rhiant Ceri dych chi, ie?
- Rhiant:** Ie.
- Athro:** Wrth gwrs. Wel ydy, mae Ceri'n mwynhau canu ac mae hi'n gallu canu'n dda iawn. Mwynhewch y cyngerdd!
- Rhiant:** Diolch yn fawr.



UNED 21

Dewch yma!

Geirfa

padell(au) ffrio – *frying pan(s)*

powlen(ni) – *bowl(s)*

rysáit – *recipe*

cymysgu – *to mix*

ffrio – *to fry*

tylino – *to knead*

ychwanegu – *to add*

hyd at – *up to*

llond llwy de / llond llwy fwrdd
– *teaspoonful / tablespoonful*

blawd – *flour*

burum – *yeast*

cwpanaid (cwpaneidiau) – *cupful(s)*

lliain (llieiniau) – *towel(s)*

olew olewydd – *olive oil*

siâp (siapiau) – *shapes*

sŵn (synau) – *noise(s)*

toes – *dough*

peryglus – *dangerous*

syml – *simple*

Syniad da!



Coginio yn Gymraeg

Coginio is a great activity for children of all ages – despite the mess! As well as developing your child's life skills, coginio develops their understanding of nutrition and healthy eating, and may even encourage fussy eaters to try bwyd newydd!

The next time you cook with your child, why not do so yn Gymraeg? Use the commands learnt in Uned 21 to help and encourage your little one. You could also use a llyfr coginio Cymraeg for inspiration. Many llyfrau coginio Cymraeg have been published in recent years to cater for all tastes and abilities. Why not have a look in your local siop Gymraeg? Alternatively, visit: http://www.gwales.com/search_advanced/?sf_new_search=2&sf_category=WBD105&tsid=5



Cân: Golchi dwylo

*Before doing any coginio, it's important to wash our hands of course.
This song by Ffalala shows us how it's done!*

Golchi dwylo

Dyma'r ffordd i olchi dwylo
A'u cadw nhw yn lân
Dyma'r ffordd i sychu dwylo

*This is how to wash hands
And keep them clean
This is how to dry hands*

Watch the video here:



<https://www.youtube.com/watch?v=JWgPwDCtbjQ>

Ffalala have lots of other great songs for little ones on their YouTube channel.
Why not subscribe today?



Sgwrs

Rhiant: Iwan, paid â chwarae gyda hwnna.

Iwan: Pam?

Rhiant: Mae e'n beryglus.

Iwan: lawn.

Rhiant: Iwan, paid â bwyta hwnna.

Iwan: Pam?

Rhiant: Mae e'n ych a fi... ac Iwan?

Iwan: Ie?

Rhiant: Paid ag agor y drws.

Iwan: Dw i eisiau mynd mas.

Rhiant: Na, Iwan. Mae hi'n rhy oer.... o, Iwan?

Iwan: Ie?

Rhiant: Paid â gwneud sŵn.

Iwan: Pam?

Rhiant: Mae'r babi'n cysgu... Iwan?

Iwan: Beth nawr?

Rhiant: Wyt ti eisiau bisged?

Iwan: Ydw, plîs.

Rhiant: Dere 'ma, cariad. Rwyd ti'n fachgen da.

Ymarfer

Gyda'ch partner, take turns to ask the questions and respond.

After some practice, try to answer without reading the responses.


Gaf i ddiod? lawn, cer i'r gegin.

Gaf i gwtsh? Wrth gwrs, dere 'ma.

Gaf i wylia'r teledu? lawn, cer i'r lolfa.

Gaf i arian poced? Gwna dy waith cartref!

Gaf i frecwast? Coda o'r gwely!






Rysáit

Bara fflat ffantastig Lisa Fearne

Dyma rysáit syml i chi a'r plant.

- 3 cwpnaid o flawd
- 2 llond llwy fwrdd o olew olewydd
- 300ml-400ml o ddŵr
- 1 llond llwy de o halen
- 1 llond llwy de o furum sych
- Cymysgwch y blawd, y burum a'r halen mewn powlen fawr. Ychwanegwch ddigon o ddŵr i wneud toes meddal iawn. Tylinwch y toes am tua 5 munud. Wedyn, rhowch y toes mewn powlen. Rhowch liain sychu llestri dros y bowlen.
- Rhowch y toes mewn lle cynnes i godi am hyd at awr. Wedyn, gwnewch siapiau bach fflat gyda'r toes. Ffriwch nhw mewn padell ffrio am tua 4 munud bob ochr.



Mae'r rysáit yma yn y llyfr coginio Cymraeg a Saesneg *Dathlu / Celebrate* gan Lisa Fearn (Gwasg Gomer 2018).

© Diolch Gwasg Gomer for permission to use and adapt this recipe.

UNED 22

Yn y gwaith

Geirfa

gwisg ysgol – school uniform

pêl-fasged – basketball

sgarff(iau) – scarf (scarves)

gwobrwyd – to award, to give a prize.

achos da – good cause

Plant Mewn Angen – Children in Need

crys – shirt

crys chwys – sweatshirt

crys polo – polo shirt

trowsus(au) – trousers

Syniad da!



Siart Gwobrwyd Cymraeg

Many parents use some kind of reward system for good behaviour with their children. Now that you know a lot of Cymraeg, dych chi'n gallu gwneud siart gwobrwyd (reward chart) Cymraeg. Dyma syniadau i chi:



★	Tacluso fy ystafell wely	Bwyta bwyd newydd	Gwneud fy ngwaith cartref	Helpu yn y ty	Gwisgo heb help
Dydd Llun					
Dydd Mawrth					
Dydd Mercher					
Dydd Iau					
Dydd Gwener					
Dydd Sadwrn					
Dydd Sul					

Cân: Pawb i Wisgo (Everyone Wear)

This song is sung to the tune of Here We Go Round The Mulberry Bush

Pawb i wisgo cot a het,
Cot a het, cot a het;
Pawb i wisgo cot a het,
Mae hi'n oer!

Pawb i wisgo sgidiau glaw,
Sgidiau glaw, sgidiau glaw;
Pawb i wisgo sgidiau glaw,
Mae hi'n wlyb!

Pawb i wisgo sbectol haul,
Sbectol haul, sbectol haul;
Pawb i wisgo sbectol haul,
Mae hi'n heulog!

Pawb i wisgo cot a sgarff,
Cot a sgarff, cot a sgarff;
Pawb i wisgo cot a sgarff,
Mae hi'n wyntog!



Ymarfer



Gyda'ch partner

Gwisga dy drowsus.	Dw i'n gwisgo fy nhrowsus.
Gwisga dy grys.	Dw i'n gwisgo fy nghrys.
Gwisga dy got.	Dw i'n gwisgo fy nghot.
Gwisga dy fenig.	Dw i'n gwisgo fy menig.
Gwisga dy fag.	Dw i'n gwisgo fy mag.

lawn – bant â ni!

Sgwrs – Plant Mewn Angen

Plentyn: Dad, mae diwrnod Plant Mewn Angen fory. Gaf i arian?

Tad: Cei, cariad. Faint wyt ti eisiau?

Plentyn: Wel, 'dyn ni ddim yn gwisgo gwisg ysgol fory felly 'dyn ni'n talu punt i'r athrawon.

Tad: lawn.

Plentyn: Hefyd, bydd cacennau a bisgedi Pudsey ar werth. Felly, gaf i

bum punt?


Tad: Cei siŵr. Mae'n achos da. Ond...

Plentyn: Ond beth?

Tad: Ond, dw i'n mynd i roi deg punt i ti achos dw i eisiau cacennau a bisgedi hefyd!

Plentyn: Grêt! Diolch, Dad.





Dydd Sadwrn Aled

Look at the pictures above and answer the questions in words.

Faint o'r gloch mae Aled yn dihuno?

Faint o'r gloch mae Aled yn chwarae pêl-fasged?

Faint o'r gloch mae Aled yn bwyta cinio?


Faint o'r gloch mae Aled yn gwylio ffilm?

Siaradwch gyda'ch partner

- Faint yw oed dy blentyn di / dy blant di?
- Ble mae'r plant yn mynd i'r ysgol?
- Pwy sy'n dysgu'r plant?
- Oes anifail anwes gyda chi?
- Ble byddwch chi'n mynd am dro dros y penwythnos?
- Pwy sy'n coginio yn eich tŷ chi?
- Ydy'r plant yn cysgu'n dda?
- Faint o'r gloch codaist ti y bore 'ma?
- Sut roedd y tywydd ddoe?
- Beth fyddi di'n wneud heno?
- Dych chi'n hoffi chwarae gemau bwrdd?
- Beth mae'r plant yn hoffi ar y teledu?

Prynu gwisg ysgol

Ysgrifennwch yr
atebion mewn
geiriau.



Faint yw'r trowsus?

Faint yw'r crys chwys?

Faint yw'r sanau?

Faint yw'r crys polo?

Faint yw'r wisg
ysgol i gyd?

Rhaid i fi Geirfa

llofnodi – *to sign*

canu'r gloch – *to ring the bell*

erbyn – *by*



Syniad da!



Apiau Selog

Selog (which translates as ‘cute’ in north Wales) is a little dragon created by Menter Iaith Môn to help families use Cymraeg yn y cartref. Selog apps are a great way to practise your Cymraeg gyda’r plant and support your child’s learning. Mae pump ap Selog ar gael:

Hoff Ganeuon Selog (favourite songs):

<https://apps.apple.com/us/app/hoff-ganeuon-selog/id1255630346>



Canu Selog:

<https://apps.apple.com/us/app/canu-selog-2/id1481461214>



ioga Selog:

<https://apps.apple.com/us/app/ioga-selog/id1481194902>



Darllen

<https://apps.apple.com/us/app/hoff-llyfrau-selog/id1255894814>



Ymarfer corff

<https://apps.apple.com/gb/app/symud-selog/id1489737940>

Cân: Dau Gi Bach

This is one of the most popular Welsh nursery rhymes.

Its simple tune and lyrics are very easy to learn.

Dau gi bach yn mynd i'r coed
Esgid newydd am bob troed
Dau gi bach yn dŵad adre
Wedi colli un o'u sgidiau
Dau gi bach

*Two little dogs go to the woods
With new shoes on each foot
Two little dogs come home
With one shoe missing
Two little dogs*

* In north Wales, **dŵad** is used instead of **dod**.

▶ Gwyliwch fersiwn Caru Canu yma: <https://www.youtube.com/watch?v=WVx7d8MKQc4>

▶ Dysgwch Dau Gi Bach gyda Matt Johnson yma:
<https://www.youtube.com/watch?v=oHaQ5XYZvGs>



Sgwrs - Yn y tŷ

Plentyn: Gaf i chwarae Minecraft gyda Lleucu heno?

Rhiant: Oes gwaith cartref gyda ti?

Plentyn: Ym... oes...mae tipyn bach gyda fi.

Rhiant: Wel, rhaid i ti wneud dy waith cartref cyn chwarae Minecraft.

Plentyn: lawn.

Rhiant: Hefyd, rhaid i ti ymarfer y gitâr.

Plentyn: Oes rhaid i fi?

Rhiant: Oes, wrth gwrs. Wyt ti'n

cofio? Mae gwers gyda ti yn yr ysgol yfory. Rhaid i ti ymarfer neu fydd Mr Price ddim yn hapus!

Plentyn: lawn.

Rhiant: Wel?

Plentyn: Wel beth?

Rhiant: Paid ag eistedd fan hyn. Cer i wneud dy waith cartref ac ymarfer y gitâr neu fydd dim amser i chwarae Minecraft!

Plentyn: lawn, iawn, dw i'n mynd.

Beth mae'n rhaid i'ch teulu chi wneud y penwythnos yma?

Siaradwch â'ch partner yn defnyddio...

rhaid i fi / rhaid i ni / rhaid i Sam / rhaid iddo fe / rhaid iddi hi / rhaid iddyn nhw.

Oes rhaid i chi wneud rhai o'r pethau yma?

- Mynd â'r plant i barti.
- Helpu'r plant i wneud gwaith cartref.
- Mynd i weld teulu.
- Mynd â'r plant i wneud chwaraeon.
- Tacluso.
- Glanhau'r ty.
- Golchi dillad.
- Newid y gwelyau.
- Golchi'r car.
- Mynd i'r llyfrgell.
- Gwneud cinio dydd Sul.

Sgwrs – Yn yr ysgol

Derbynnydd: Bore da, Ysgol Bryn Castell.

Rhiant: Bore da. Marian Jones, mam Anwen Jones o'r dosbarth Meithrin yma. Rhaid i fi gasglu Anwen yn gynnar heddiw. Mae apwyntiad deintydd gyda hi.

Derbynnydd: lawn, dim problem. Faint o'r gloch?

Rhiant: Mae'r apwyntiad am dri o'r gloch felly bydda i'n dod i'r ysgol erbyn hanner awr wedi dau.

Derbynnydd: lawn. Dych chi'n gwybod beth i wneud? Dych chi wedi casglu Anwen yn gynnar o'r blaen?

Rhiant: Nac ydw.

Derbynnydd: Wel, rhaid i chi

ganu'r gloch. Wedyn rhaid i chi ddod i'r swyddfa a llofnodi'r llyfr.

Rhiant: lawn, dw i'n deall. Diolch.

Derbynnydd: Gwela i chi wedyn.

Rhiant: Hwyl!



Edrychwr ar y lluniau. Beth mae'n rhaid i'r plant wneud?

**Answer in full sentences, using the correct form of 'i' (iddo fe/ iddi hi etc).
The first one has been done for you.**



Rhaid iddo fe wisgo cot law.



Rhaid



Rhaid



Rhaid

Cyn ac ar ôl

Geirfa

ras(y)s – race(s)

crafu – to scrape, to scratch

chwydu – to vomit

edrych ar ôl – to look after

gwerth y byd – priceless, worth their weight in gold

wedi blino'n lân – very tired, totally shattered

bygi(s) – buggy(buggies)

bywyd(au) – life (lives)

cilometr(au) – kilometre(s)

Syniad da!



Chwarae gemau yn Gymraeg

If you're stuck in the car with the children or trying to pass the time without toys or gadgets, it's good to have a repertoire of games to keep everyone entertained.

Beth am chwarae yn Gymraeg? Dyma syniadau:

- **Dw i'n gweld gyda fy llygad bach i... rhywbeth yn dechrau gyda ...**

I spy with my little eye... something beginning with ...

- **Cuddio Hide and seek**

"Dw i'n cyfri i dduau ddeg."

"I'm counting to twenty."

"Barod neu beidio, dyma fi'n dod!"

"Ready or not, here I come!"

"Ble rwyt ti?"

"Ble dych chi?"

"Dyma fi!"

- **Beth dw i?**

Take turns with your child to describe an animal yn Gymraeg, er enghraifft:

"Dw i'n byw ar y fferm. Dw i'n dweud "mŵ"." "Buwch wyt ti?" "Ie!"

Soon you'll be able to describe famous people and ask more complicated questions yn Gymraeg.

- *With older children, you can try to make a chain of words yn Gymraeg (or a mix of Welsh and English until you have a broader vocabulary). You must think of a word beginning with the final letter of the last word, er enghraifft:*

bwyd → deinosor → rysáit → tatws → selsig → glaw → wal → lolfa → adeiladwr

Cân: Brest Pen Coed

This is a great song to pass the time on a long car journey. After the first time, you have to miss out some words, as shown below. Don't forget the arm movements!

Awn am dro i Frest Pen Coed,
 Awn am dro i Frest Pen Coed,
 Dyna'r lle difyrraf y bûm i ynddo erioed,
 Awn am dro i Frest Pen Coed
 Awn am dro i _____ Pen Coed,
 awn am dro i _____ Pen Coed,
 Dyna'r lle difyrraf y bûm i ynddo erioed,
 Awn am dro i _____ Pen Coed

Awn am dro i _____ Coed,
 awn am dro i _____ Coed,
 Dyna'r lle difyrraf y bûm i ynddo erioed,
 Awn am dro i _____ Coed

Awn am dro i _____ ,
 awn am dro i _____ ,
 Dyna'r lle difyrraf y bûm i ynddo erioed,
 Awn am dro i _____

Let's go for a walk to Brest Pen Coed

It's the most pleasant place I've ever been

Awn am dro...

1. i Frest



2. pen

3. coed



4. Dyna'r lle
difyrraf y bûm i
ynddo erioed



 <https://www.youtube.com/watch?v=DMobjj23eKw>

This song can be found on the classic children's album, Cwm-Rhyd-y-Rhosyn. Visit sainwales.com/ for more information.



Sgwrs - yn y gwaith

Rheolwr: O'r diwedd! Rwyd ti'n hwyr iawn!

Lyn: Sori! Dw i wedi cael amser ofnadwy y bore 'ma.

Rheolwr: Beth ddigwyddodd?

Lyn: Wel, roedd Noa yn dost y bore 'ma. Chwydodd e yn y gwely. Felly, cyn gwneud unrhyw beth arall roedd rhaid iddo fe gael bath.

Rheolwr: O.

Lyn: Wedyn, ar ôl iddo fe gael bath roedd rhaid i fi olchi'r pyjamas a'r dillad gwely.

Rheolwr: Dw i'n deall.

Lyn: Ar ôl golchi popeth, roedd rhaid i fi ffonio fy Mam.

Rheolwr: Pam?

Lyn: Achos doedd Noa ddim yn gallu mynd i'r ysgol. Felly, roedd rhaid i Mam ddod i'r tŷ i edrych ar ôl Noa.

Rheolwr: Dw i'n gweld.

Lyn: Cyn i Mam gyrraedd roedd rhaid i fi wneud brecwast i Lois. Ar ôl iddi hi gael brecwast, roedd rhaid i fi helpu Lois i wisgo. Ar ôl i Mam gyrraedd, es i â Lois i'r car... ond roedd iâ dros y ffenestri i gyd! Felly, roedd rhaid i fi gychwyn y car a chrafu'r ffenestri. Wedyn, cyn dod i'r gwaith, roedd rhaid i fi fynd â Lois i'r ysgol. Roedd y traffig yn ofnadwy...

Rheolwr: Lyn, rwyd ti yma nawr. Does dim ots. Wyt ti eisiau coffi?

Lyn: Ydw, plîs. Coffi cryf gyda llaeth a dau siwgr.

Rheolwr: Ar y ffordd...



Beth oedd rhaid i Lyn wneud cyn iddi hi gyrraedd y gwaith?

Gyda'ch partner, ysgrifennwch dri pheth arall roedd rhaid iddi hi wneud.

1.

2.

3.

Ond dyn yw Lyn. Ysgrifennwch dri pheth arall roedd rhaid iddo fe wneud.

1.

2.

3.



Sgwrs

Jo: Cyn i fi gael y plant, ro'n i'n rhedeg marathons.

Mal: O't ti?

Jo: O'n. Ro'n i'n ffit iawn. Mae'n anodd nawr. Does dim amser i redeg yn bell. Ond dw i wedi dechrau rhedeg tipyn bach – gyda'r bygi! Dw i eisiau gwneud ras deg cilomedr ar ôl y Nadolig.

Mal: Da iawn ti. Mae llawer o bethau wedi newid i fi hefyd. Cyn i ni gael y plant, ro'n i a fy mhartner yn

mynd mas bob penwythnos. Ond nawr, dw i'n cwympo i gysgu ar y soffa cyn naw o'r gloch ar nos Wener! Dw i wedi blino'n lân!

Jo: Dw i wedi blino drwy'r amser hefyd. Cyn i fi gael y plant, ro'n i'n darllen llawer o lyfrau ond nawr dw i'n darllen Facebook ac yn edrych ar Peppa ar y teledu gyda'r plant.

Mal: Mae bywyd wedi newid – ond dw i'n hapus iawn.

Jo: A fi. Mae'r plant werth y byd.

Newidiwch y geiriau sy wedi'u tanlinellu./Change the words which have been underlined.

Siaradwch

Gyda'ch partner, siaradwch am:

- eich bywyd **cyn i chi** gael plant, ac **ar ôl i chi** gael plant
- beth mae eich plentyn/plant yn wneud yn y bore cyn iddo fe/iddi hi/iddyn nhw

fynd i'r ysgol

- beth mae eich plentyn/plant yn wneud ar ôl iddo fe/iddi hi/iddyn nhw ddod adre o'r ysgol

Mae bwyd yn y caffi

Geirfa

blanced(i) – *blanket(s)*

cyllell (cyllyll) – *knife (knives)*

fforc (ffyrc) – *fork(s)*

soser(i) – *saucer(s)*

cadair uchel (cadeiriau uchel)
– *high chair(s)*

dillad sbâr – *spare clothes*

gosod y bwrdd – *to set the table*

bathodyn(nau) – *badge(s)*

bib(iau) – *bib(s)*

oedolyn (oedolion) – *adult(s)*

plât (platau) – *plate(s)*

tebot(au) – *teapot(s)*

weips – *wipes*

Syniad da!



Siarad Cymraeg yn y caffi

For many parents with young children, mynd i'r caffi is a regular occurrence. It's a chance to recharge the batteries, socialise with other parents and give your little ones a treat. But it could also be a chance for you to practise your Welsh. The next time you're in a cafe, keep an eye out for the Bathodyn laith Gwaith (Work Language Badge) worn by Welsh speakers or learners. You might be surprised – there are Welsh-speaking waiters and waitresses all over Wales! Many Menterau laith also run their own cafes, with Welsh-speaking staff and bilingual menus. Ewch amdani!



Cân: Rhowch y lliain ar y bwrdd

This song is sung to the tune of Polly Put the Kettle On

Rhowch y lliain ar y bwrdd X4
I ni gael te.


*Put the [table]cloth on the table,
For us to have tea.*

In the next verses, use the same pattern with the following items:

Rhowch y tebot ar y bwrdd...
Rhowch y cwpan ar y bwrdd...
Rhowch y soser ar y bwrdd...
Rhowch y plât ar y bwrdd...
Rhowch y fforc ar y bwrdd...
Rhowch y gyllell ar y bwrdd...
Rhowch y llwy ar y bwrdd...

*Put the teapot on the table
Put the cup on the table
Put the saucer on the table
Put the plate on the table
Put the fork on the table
Put the knife on the table
Put the spoon on the table*

Why not have a te prynhawn with your child yn Gymraeg?



Sgwrs - Yn y caffi

A: Prynhawn da, croeso i
Gaffi'r Goedwig.

B: Gaf i fwrrd i ddau,
plîs? Un oedolyn ac un
plentyn bach.

A: Wrth gwrs. Dewch i
eistedd fan hyn, ar bwys y
ffenestr.

B: Diolch. Oes cadair
uchel gyda chi?

A: Oes – dyma chi. Dych
chi eisiau bwydlen plant?

B: Ydw, os gwelwch yn
dda. Diolch.

A: Mae pethau lliwio i'r
un bach fan hyn hefyd.

B: Diolch, mae e'n hoffi
lliwio.



A: Dych chi eisiau
archebu diod nawr?

B: Iawn. Latte i fi, os
gwelwch yn dda.

A: ...Ac i'r bachgen bach?

B: Dim diolch. Mae e'n
iawn. Mae cwpan gyda
fe.

A: Iawn. Bydda i'n ôl cyn

bo hir.

B: Diolch... un peth
arall... ble mae'r tŷ bach?

A: Lawr fanna, wedyn
trowch i'r chwith.

B: Diolch. Oes lle newid
cewyn yno?

A: Oes.

B: Gwych, diolch yn fawr.

Ymarfer

Gyda'ch partner, *follow the examples shown and take turns to answer the questions in full sentences.*

Oes bwydlen plant yma?



Oes, mae bwydlen plant yma.

Ydy'r caffi'n brysur?



Nac ydy, dyw'r caffi ddim yn brysur.

Oes cadair uchel yma?



Nac oes, does dim cadair uchel yma.

Ydy'r caffi'n swnllyd?



Oes digon o le i'r bygi yma?



Oes WIFI yma?



Oes bwrdd gwag yma?



Ydy'r caffi ar agor?



Ydy, mae'r caffi ar agor.

Ydy'r bwyd yn ddrud?



Ydy'r coffi'n dda?



Sgwrs - Amser te yn y tŷ

Rhiant: Beth wyt ti'n wneud, Sara?

Sara: Dw i'n gosod y bwrdd. Plât i ti, plât i fi, plât i Tedi. Mae'n amser te. Dere at y bwrdd. Ble rwyt ti eisiau eistedd?

Rhiant: Fan hyn, plîs.

Sara: lawn, eistedda fan hyn.

Rhiant: Beth 'dyn ni'n mynd i fwyta, Sara?

Sara: Cacen siocled, creision a brechdanau.

Rhiant: Oes rhywbeth i yfed?

Sara: Oes. Mae te yn y tebot a llaeth yn y jwg. Wyt ti'n cymryd siwgr?

Rhiant: Ydw, un siwgr.

Sara: Wel, mae digon o siwgr yn y bowlen. Mae Tedi'n cymryd chwe siwgr yn ei de.

Rhiant: Ydy e wir? Wel, wel. Bydd rhaid i Tedi frwsio ei ddannedd ar ôl te!

Sara: Bydd.

Gofynnwch y cwestiynau yma i o leia (at least) 5 person yn y dosbarth

Beth wyt ti'n wneud yfory/nos yfory/dydd Sul?

Wyt ti'n cymryd siwgr?



**Beth sy yn y bag?
Labelwch y llun gyda'ch partner.**

cwpan

cewynnau

mat newid

weips

dillad sbâr

bib

cyllell

bocs bwyd

llwy

fforc

blanced

tegan

Wedyn, gyda'ch partner, dwedwch beth sy yn y bag, e.e. Mae cwpan yn y bag.

UNED 26

Ei/Ein/Eu

Geirfa

berfa (berfâu) – *wheelbarrow(s)*

gwenynen (gwenyn) – *bee(s)*

lawnt(iau) – *lawn(s)*

malwoden (malwod) – *snail(s)*

rhaw(iau) – *spade(s)*

dyfrio – *to water*

gwahanu – *to separate*

plannu – *to plant*

pwll padlo – *paddling pool*

can dŵr (cニアau dŵr) – *watering can(s)*

corryn (corynnod) – *spider(s)*

dant y llew – *dandelion(s)*

hedyn (hadau) – *seed(s)*

llygad y dydd (llygaid y dydd) – *daisy (daisies)*

mwydyn (mwydod) – *worm(s)*

pili-pala (pili-palod) – *butterfly (butterflies)*

planhigyn (planhigion) – *plant(s)*

pot(iau) – *pot(s)*

pridd – *soil, earth*

rhosyn (rhosod) – *rose(s)*

trampolin (trampolinau) – *trampoline(s)*

sbeislyd – *spicy*

Syniad da! - Ein gardd



Young children love spending time yn yr ardd, exploring their surroundings and discovering new plants and creatures. Even the most mundane garden worm can fascinate a young child for hours! As we all know, spending time outdoors is great for the physical and mental wellbeing of adults too.

Y tro nesaf dych chi yn yr ardd, beth am siarad Cymraeg?
This unit contains useful vocabulary and phrases to help you.



Cân: Sylwi a Thawelu'r Meddwl Observing and Silencing the Mind Cyw

Since the Covid-19 pandemic, concerns have been raised about the mental wellbeing of children in an ever-changing world. This lovely song by Cyw talks about simple techniques to help children deal with stress and anxiety.

Mae pethau bach yn helpu, dw i'n addo i ti nawr,
Little things help, I promise you now,
Sylwi ar dy anadl a rhoi traed yn sownd i'r llawr
Notice your breath and plant your feet on the ground,
Anadlu'n ddwfn i mewn am dri
Breathe in deeply for three,
Ac allan eto, da iawn ti!
And out again, well done you!



<https://www.youtube.com/watch?v=2LDmK2JAA9I>





There is also an animation series on Cyw called Shwshaswyn to help children develop mindfulness techniques
<https://cyw.cymru/en/ymarferion-shwshaswyn/>

Yn yr ardd



Use the Geirfa section of Uned 26 to help you label y lluniau.



Sgwrs - Yn yr ardd

Plentyn: Beth 'dyn ni'n wneud yn gyntaf?

Rhiant: Rhaid i ni ddyfrio'r planhigion. Wyt ti'n gallu helpu?

Plentyn: Iawn.

Rhiant: Dyma ti. Mae dŵr yn y can dŵr. Da iawn.

Plentyn: Beth nesa?

Rhiant: 'Dyn ni'n mynd i blannu hadau mewn potiau. Mae hadau tomatos a hadau pys gyda ni.

Plentyn: Gaf i roi'r hadau yn y pot?

Rhiant: Wrth gwrs. 'Dyn ni'n rhoi pridd yn gyntaf. Wedyn yr hadau, wedyn pridd eto.

Plentyn: A dŵr?

Rhiant: Ie. Rhaid i ni ddyfrio'r hadau.


Plentyn: Dyna ni. Wedi gorffen.

Rhiant: Da iawn. Rwyd ti wedi gweithio'n galed.

Plentyn: Ydw. Gaf i fisged, plîs?

Rhiant: Wrth gwrs.

Gyda'ch partner, fill in the gaps in the descriptions below using the correct mutations after ei. Then, try to describe the illustrations without reading the text.




- Mae ei wallt e'n ddu
- Mae ei grys T e'n goch



- Mae ei gwallt hi'n frown
- Mae ei throwsus hi'n wyrdd

-
- Mae ei feic e'n wyrdd

-
- Mae ei hesgidiau hi'n ddu



Gyda’ch partner, describe this illustration yn Gymraeg, using words from Geirfa Uned 26. Wedyn, talk about eich gardd chi.

- Oes blodau yn eich gardd chi?
- Dych chi’n hoffi garddio?
- Dych chi’n tyfu llysiau?
- Beth mae'r plant yn hoffi wneud yn yr ardd?



Sgwrs – Picnic y Cylch Meithrin

A: Mae dy ferch di'n bwyta'n dda!

B: Ydy, mae Nel yn bwyta popeth!
Ei hoff fwyd hi yw brocoli!

A: Waw! Mae Carys, fy merch i,
yn ffyslyd. Dyw hi ddim yn hoffi
ffrwythau a llysiau.

B: Dw i'n siŵr bydd hi'n bwyta'n well
pan fydd hi'n ferch fawr.

A: Dw i ddim yn gwybod... mae ei thad
hi'n ffyslyd hefyd. Mae e'n hoffi bwyd

plaen iawn. Dw i'n hoffi bwyd sbeislyd.

B: Mae amser bwyd yn anodd yn eich
tŷ chi, felly!

A: Wel, dim nawr. 'Dyn ni wedi
gwahanu felly dw i'n gallu bwyta
unrhyw beth dw i eisiau. Dw i'n
bwyta cyrra bron bob nos! Ond,
mae'n rhaid i fi wneud bwyd
gwahanol i Carys hefyd. Gobeithio
bydd hi'n hoffi cyrra cyn bo hir!

Siaradwch gyda’ch partner

- Beth yw eich hoff fwyd chi?
- Beth yw hoff fwyd eich plentyn/plant chi?
- Ydy’ch plentyn/ plant chi’n hoffi trio bwyd gwahanol?
- Dych chi i gyd yn bwyta yr un peth gartref?

Pobol y Cwm

Geirfa

gêm fwrdd (gemau bwrdd)

– board game(s)

meddygfa (meddygfeydd) – (doctor's)

surgery (surgeries)

mins-pei(s) – mince pie(s)

dyddiad geni – date of birth

ffrindiau mawr – great friends

cynllun(iau) – plan(s)



twba lwcus – lucky dip

Syniad da!

– Gemau bwrdd Cymraeg

Even in this age of apps, computer games and youtube, sometimes nothing beats a good old fashioned board game or a game of cards for some family fun. But why not practise your Cymraeg at the same time? Dych chi'n gallu chwarae gemau cardiau fel Uno yn hawdd pan dych chi'n gwybod y lliwiau a'r rhifau yn Gymraeg. Mae setiau Snap a jig-sos Cymraeg ar gael, a hefyd gemau bwrdd fel Monopoly, Lotto, Junior Scrabble a Scrabble Cymraeg.

Edrychwrch yn eich Siop Gymraeg leol, neu ewch i:
http://www.gwales.com/search_advanced/?lang=EN&tsid=10



Cân: Sosban Fach



If you've ever watched the Scarlets rugby team playing, you've probably heard the crowd singing **Sosban Fach**. This popular song is taught in many schools and is a firm favourite in Welsh folk sessions and singalongs. Don't take too much notice of the English translation – the words don't make a lot of sense in Welsh either! Ewch amdani a mwynhewch!

Mae bys Meri-Ann wedi brifo,
A Dafydd y gwas ddim yn iach.
Mae'r baban yn y crud yn crio,
A'r gath wedi sgramo Joni bach.

Sosban fach yn berwi ar y tân,
Sosban fawr yn berwi ar y llawr,
A'r gath wedi sgramo Joni bach.

*Mary-Ann has hurt her finger,
And Dafydd the servant is unwell.
The baby in the cradle is crying,
And the cat has scratched little Johnny.*

*Little saucepan boiling on the fire,
Big saucepan boiling on the floor,
And the cat has scratched little Johnny.*

Watch this video of visitors at the Eisteddfod singing **Sosban Fach**. You might recognise a few famous faces!

[Sosban Fach - YouTube](#)



Pwy yw hi? Pwy yw e?

Darllenwch y disgrifiadau (descriptions) and match the babies with their pictures.



1. Coch yw lliw ei gwallt hi. Porffor yw lliw ei het haul hi. Pinc yw lliw ei gwisg nofio hi. Coch yw lliw ei lolipop hi. _____ yw hi.
2. Brown yw lliw ei gwallt hi. Coch yw lliw ei het haul hi. Glas yw lliw ei gwisg nofio hi. Melyn yw lliw ei lolipop hi. _____ yw hi.
3. Du yw lliw ei wallt e. Gwyn yw lliw ei het e. Melyn yw lliw ei wisg nofio e. Porffor yw lliw ei lolipop e. _____ yw e.
4. Melyn yw lliw ei gwallt hi. Glas yw lliw ei het haul hi. Porffor yw lliw ei gwisg nofio hi. Oren yw lliw ei lolipop hi. _____ yw hi.
5. Brown yw lliw ei wallt e. Gwyrdd yw lliw ei het haul e. Coch yw lliw ei wisg nofio e. Oren yw lliw ei lolipop e. _____ yw e.

Nawr, edrychwch ar y lluniau a disgrifiwch y plant, heb edrych ar y brawddegau.

Sgwrs – Yn y Feddygfa

Darllenwch y sgwrs gyda’ch partner. Wedyn:

- Robert yw'r plentyn nawr. Rhaid i chi newid y geiriau sydd wedi'u tanlinellu (*underlined*).
 - Hefyd, ysgrifennwch y dyddiad geni a'r amser mewn rhifau:
- -----

- Beth yw dyddiad geni eich plentyn / plant chi?

Derbynnydd: Bore da, Meddygfa Bryn Castell. Ga i helpu?

Rhiant: Bore da. Dw i eisai gwneud apwyntiad i fy merch i. Mae hi'n teimlo'n ofnadwy. Mae gwres arni hi, mae hi'n wan ac mae llwnc tost gyda hi.

Derbynnydd: lawn, wrth gwrs. Beth yw ei henw hi?

Rhiant: Rebecca Bowen.

Derbynnydd: A beth yw ei dyddiad

geni hi?

Rhiant: Tachwedd tri deg, dwy fil un deg saith.

Derbynnydd: lawn. Dw i'n edrych ar y system nawr. Mae apwyntiad ar gael gyda Dr James am **ugain munud i ddeg**. Ydy hynny'n iawn?

Rhiant: Ydy, diolch yn fawr. Gwela i chi wedyn. Hwyl!

Derbynnydd: Hwyl!



Sgwrs – ar bwys yr ysgol

Meinir: Hello, dad Joseff dych chi, ie?

Robin: Ie, dyna ni. Dw i'n nabod eich wyneb chi, ond sori, dw i ddim yn cofio pwy dych chi.

Meinir: Meinir, mam Sioned dw i. Cwrddon ni yn Ffair Nadolig yr ysgol.

Robin: Wrth gwrs! Ro'ch chi'n gwerthu'r mins peis.

Meinir: O'n, ac ro'ch chi'n gwneud y twba lwcus. Beth yw'ch enw chi?

Robin: Robin yw fy enw i.

Meinir: A, ie. Wel, mae Sioned yn

siarad am Joseff drwy'r amser!

Robin: Maen nhw'n ffrindiau mawr. Mae Joseff yn hoff iawn o Sioned.

Meinir: Rhaid iddo fe ddod i chwarae gyda Sioned. Beth am y penwythnos yma?

Robin: Does dim cynlluniau gyda ni.

Meinir: lawn, beth yw'ch rhif ffôn chi?

Robin: Dim saith pedwar saith pump, naw tri tri naw tri dim.

Meinir: Diolch. Byddai i'n ffonio ar ôl cyrraedd adre.

Robin: Bydd Joseff yn hapus iawn.

Adolygu ac edrych ymlaen

Geirfa

Cymdeithas Rieni ac Athrawon – PTA

malws melys – *marshmallows*

rheolwraig (rheolwragedd)
– *managaress(es)*

sach gysgu (sachau cysgu)
– *sleeping bag(s)*

syrpréis (sympreisys) – *surprise(s)*

taleb(au) – *voucher(s)*

gwersylla – *to camp*

sblasio – *to splash*

Am dywydd! – *What awful weather!*

I mewn â ti – *In you go*

wastad – *always*

yn wên o glust i glust – *beaming, smiling broadly*

can dŵr (caniau dŵr) – *watering can(s)*

gwely gwynt (gwelyau gwynt) – *airbed(s)*

siocled poeth – *hot chocolate*

trysorydd(ion) – *treasurer(s)*

ysgrifennydd (ysgrifenyddion)
– *secretary (secretaries)*

Syniad da!

- daliwch ati!




Mae'r cwrs Mynediad wedi gorffen, ond daliwch ati! You've come so far and learnt so much – don't let it go! Felly, tan y cwrs Cymraeg nesaf:

- Cofiwch siarad Cymraeg gyda'r teulu bob dydd, even if it's just a few words.
- Keep in touch with your dosbarth Cymraeg to practise your Cymraeg. Perhaps you could meet up occasionally or chat on-line.
- Gwyliwch S4C a gwrandewch ar Radio Cymru.
- Defnyddiwch apiau Cymraeg gyda'r plant, fel yr apiau yn Uned 3 a 23.
- Edrychwrch ar www.learncymraeg.cymru. There are lots of resources on the Dysgu Cymraeg website to help you practise your Cymraeg yn y ty.



Cân: Hwyl Fawr Ffrindiau

As we draw to the end of the Cwrs Mynediad, this is a song about saying hwyl fawr! I'm sure that many of you will have heard your children singing Hwyl Fawr Ffrindiau before leaving the ysgol or Cylch Meithrin.



Dyma fideo o blant bach Casnewydd (Newport) yn canu Hwyl Fawr Ffrindiau.

Hwyl fawr ffrindiau,
Hwyl fawr ffrindiau,
Hwyl fawr ffrindiau,
Mae'n amser dweud hwyl fawr.

*Goodbye friends,
Goodbye friends,
Goodbye friends,
It's time to say goodbye.*

Twdlŵ a bant â ni,
bant â ni, bant â ni,
Twdlŵ a bant â ni,
Mae'n amser dweud hwyl fawr.

*Toodle-oo and off we go,
off we go, off we go, Toodle-oo and off we go,
It's time to say goodbye.*



<https://www.youtube.com/watch?v=RabiWMkGiEI>

Sgwrs: Prynau anrheg

Alun yw Ysgrifennydd y Gymdeithas Rieni. Nia yw'r Trysorydd. Maen nhw'n siarad ar y ffôn.

Alun: Helo Nia, Alun yma. Sut wyt ti?

Nia: Da iawn diolch. A ti?

Alun: Grêt diolch. Gwranda, mae newyddion gyda fi.

Nia: O?

Alun: Mae Mrs Davies y Pennaeth yn ymddeol.

Nia: Ydy hi? Mae hi'n ifanc!

Alun: Mae hi eisiau mwynhau gyda'r wyrion a mynd i deithio.

Nia: Wel, rhaid i ni gael anrheg arbennig i Mrs Davies. Mae hi'n bennaeth ardderchog.

Alun: Ydy. Ond does dim syniad gyda fi beth i brynu. Beth wyt ti'n feddwl?

Nia: Wel, beth am brynu te prynhawn iddi hi yn y tŷ te newydd yn y pentref? Hefyd, taleb i siop ddillad neis? Mae hi'n hoffi dillad!

Alun: O ydy! Mae hi'n smart.

Nia: Rhaid i ni gael siocled hefyd, a photel o siampên.

Alun: Syniad da. Diolch Nia.

Nia: Croeso. Wel, rhaid i ni gasglu arian nawr.

Alun: Dw i'n siŵr byddwn ni'n gallu casglu llawer o arian.

Mae Mr Davies yn ymddeol. Newidiwch y sgwrs. Defnyddiwch 'fe' yn lle 'hi'.

Stori - Y Trip Gwersylla Rhan 1



Roedd hi'n hanner dydd ac roedd Haf yn gyrru i'r Cylch Meithrin i gasglu lanto, ei mab hi. Roedd hi'n bwrw glaw ac roedd llawer o ddŵr ar y ffordd.

“Ych a fi, mae'r tywydd yn ofnadwy!” meddyliodd Haf. “Dyna drueni. Dim trip gwersylla i ni! Bydd lanto'n siomedig iawn. Mae e'n dwlu ar wersylla.”

Parciodd Haf y car. Cerddodd at y gât a gwelodd hi ei ffrind hi, Lisa. Roedd Lisa yn casglu ei merch hi, Siwan.

“Am dywydd!” meddai Lisa'n drist. “Mae hi wastad yn bwrw glaw pan mae'r gwyliau'n dechrau!”

“Dw i'n gwybod!” atebodd Haf. Yna, gwenodd hi. Roedd hi'n gallu gweld lanto yn cerdded at y gât gyda Rhiannon, Rheolwraig y Cylch Meithrin. Roedd e'n wên o glust i glust.

“Helo Mami!” dwedodd lanto. “Wyt ti wedi pacio popeth? Ydy Tedi yn y car? 'Dyn ni'n mynd i wersylla nawr, Rhiannon.”

“Ydych chi?” gofynnodd Rhiannon. “Dyw

hi ddim yn braf iawn heddiw!”

Edrychodd Haf ar lanto. Roedd rhaid iddi hi ddweud y newyddion drwg.

“Sori, lanto. 'Dyn ni ddim yn gallu mynd i wersylla. Edrycha ar y tywydd! Mae hi'n stormus iawn heddiw.”

“Nal!” dwedodd lanto. “Na, na, na! Dw i eisiau gwersylla! Dw i eisiau cysgu mewn sach gysgu ac yfed siocled poeth gyda malws melys ar bwys y Tân! Does dim ots gyda fi am y glaw!”

“Dyn ni ddim yn gallu gwersylla heno, lanto bach. Bydd y babell yn torri yn y gwynt a'r glaw! Dere, cariad. Rhaid i ni fynd adre nawr.”

Rhedodd Haf a lanto at y car. Roedd lanto'n hoffi sblesio mewn pyllau dŵr fel arfer ond roedd e'n rhy grac heddiw. Stampiodd e ei draed. Wedyn, ciciodd e deiar y car. “Dw i eisiau gwersylla!” sgrechiodd e.

“I mewn â ti i'r car lanto - dere!” meddai Haf. Roedd pawb yn edrych ar lanto yn sgrechian. Roedd hi eisiau gadael yn gyflym.

Atebwch mewn brawddegau llawn.

1. Sut mae'r tywydd yn y stori? _____
2. Beth yw enw ffrind Haf? _____
3. Pwy yw Siwan? _____
4. Ble mae lanto eisiau mynd? _____

Ffeindiwch y cyfieithiadau (*translations*) Cymraeg yn y stori.

There was a lot of water on the road _____

He loves camping _____

Have you packed everything? _____

bad news I don't care _____

the tent he screamed _____

Siaradwch â'ch partner

- Dych chi'n hoffi gwersylla?
- Ble ro'ch chi'n mynd ar wyliau pan o'ch chi'n blentyn?
- Ble ro'ch chi'n mynd ar wyliau cyn cael plant?
- Ble dych chi'n hoffi mynd ar wyliau nawr?

Y Trip Gwersylla Rhan 2

Yn y tŷ, roedd wyneb lanto yn goch. Roedd e wedi bod yn crio am amser hir.

“Lanto?” meddai Haf. “Wyt ti’n teimlo’n well nawr?”

“Ydw,” atebodd lanto. “Dw i ddim mor drist nawr.”

“Da iawn,” meddai Haf. “Nawr, beth am i ti chwarae gyda Lego yn y gegin? Os wyt ti’n fachgen da, falle bydd sypréis wedyn...”

“O!” meddai lanto. “Dw i’n hoffi sypreisys.”

Aeth lanto i’r gegin gyda bocs bach o Lego. Dechreuodd e adeiladu castell mawr. Roedd e’n dwlu ar Lego.

Yn y lolfa, roedd Haf yn brysur. Roedd hi’n symud y soffa ac yn rhoi blancedi dros y cadeiriau. Roedd hi wedi rhoi dau wely gwynt ar y llawr, a dwy sach gysgu. Nawr, roedd y lolfa’n edrych fel maes gwersylla!

“lanto!” meddai hi. “Dere ‘ma, cariad! Wyt ti eisiau’r sypréis?”

“O, ydw!” atebodd e.

Rhedodd lanto i’r ystafell, a gwenodd e.

“Waw! Cŵl!”

“Dyn ni ddim yn gallu gwersylla tu fas, felly rhaid i ni wersylla tu fewn!”

“Ydyn ni’n cysgu fan hyn heno?”

“Ydyn! Drycha, mae dy sach gysgu di fan hyn ar bwys fy sach gysgu i. Nawr, wyt ti eisiau siocled poeth?

“Ydw, plîs! Gyda malws melys?”

“Wrth gwrs!”

“Diolch, Mam. Mae hyn yn ffantastig.”



Dewiswch yr atebion cywir

Pam roedd lanto’n drist ar y dechrau?

Doedd e ddim yn hoffi Lego Roedd Haf yn brysur Roedd e eisiau mynd i wersylla

Beth mae Haf a lanto’n mynd i wneud?

adeiladu castell gwersylla yn y lolfa chwarae yn y gegin

Nawr, edrychwch ar y brawddegau yma. Gyda’ch parther, faint o weithiau dych chi’n gallu newid y geiriau sy wedi’u tanlinellu. *How many different words can you think of to replace the underlined words below?*

Roedd hi wedi rhoi dau wely gwynt ar y llawr. Wyt ti eisiau siocled poeth?
Mae dy sach gysgu di fan hyn. Mae hyn yn ffantastig.